

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)  
(Tai a Llywodraeth Leol) 2010

Adroddiad Pwyllgor  
Ionawr 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8408  
Ffacs: 029 2089 8021  
Ebost: [swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk](mailto:swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)  
(Tai a Llywodraeth Leol) 2010

Adroddiad Pwyllgor  
Ionawr 2010



## **Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**

Cafodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried a chyflwyno adroddiadau ar ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Cynulliad, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gallu ystyried a chyflwyno adroddiadau ar ddeddfwriaeth heblaw deddfwriaeth y Llywodraeth, fel y bo'n briodol.

## **Pwerau**

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 9 Rhagfyr 2008 yn un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain ar gael yn [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)

## **Rhestr o Adroddiadau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgorau Deddfwriaeth**

### *Teitl yr adroddiad*

### *Dyddiad cyhoeddi*

Adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008

Ebrill 2008

Adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008

Gorffennaf 2008

Mae pob adroddiad blaenorol gan y pwyllgorau ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg.htm>

## Aelodau'r Pwyllgor

<i>Yr aelod o'r Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Val Lloyd (Cadeirydd)	Llafur	Dwyrain Abertawe
Jeff Cuthbert (Rhag 2008 - Ion 2010)	Llafur	Caerffili
Gareth Jones	Plaid Cymru	Aberconwy
Sandy Mewies (Rhag 2008 - Ion 2010)	Llafur	Delyn
Rhodri Morgan (o Ion 2010)	Llafur	Gorllewin Caerdydd
Lynne Neagle (o Ion 2010)	Llafur	Tor-faen
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd
Brynle Williams	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru



## Cynnwys

---

<b>Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion .....</b>	<b>7</b>
<b>1. Rhagymadrodd .....</b>	<b>11</b>
<b>2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig .....</b>	<b>14</b>
Y sector rhentu preifat.....	19
Ariannu tai cyngor yng Nghymru .....	22
<b>3. Rhychwant y Gorchymyn arfaethedig .....</b>	<b>27</b>
Materion 11.2 ac 11.3.....	27
Mater 11.4.....	31
Mater 11.5.....	34
Mater 11.6.....	40
Mater 11.7.....	44
Mater 11.8.....	48
Mater 12.18.....	53
Eithriadau i gymhwysedd deddfwriaethol .....	56
<b>4. Darpariaethau dehongli yn y Gorchymyn arfaethedig .....</b>	<b>58</b>
<b>5. Materion eraill.....</b>	<b>62</b>
Adnoddau.....	62
Materion traws-ffiniol.....	63
<b>Tystion .....</b>	<b>65</b>
<b>Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig.....</b>	<b>66</b>



## **Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion**

---

Mae'n casgliadau a'n hargymhellion wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn. Gweler tudalennau perthnasol yr adroddiad er mwyn gweld y dystiolaeth ategol:

### **Amseru**

Rydyn ni'n argymell yn gryf y dylai'r Pwyllgor Busnes roi rhagor o ystyriaeth i'r dyddiadau cau y mae'n eu pennu ar gyfer adroddiadau ar ddeddfwriaeth, a hynny er mwyn ei gwneud yn haws ennyn diddordeb y cyhoedd mewn craffu ar ddeddfwriaeth a gwella'r broses ddemocrataidd. (Paragraff 16)

### **Egwyddorion cyffredinol**

Rydyn ni'n ategu egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, yn amodol ar ein barn am hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â threfniadau deiliadaeth, sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 63 - 66. (Paragraff 62)

Y sector rhentu preifat

O gofio mor bwysig yw'r Gorchymyn arfaethedig o ran gwireddu'r cynigion polisi ynghylch tai cymdeithasol a bodloni anghenion tai pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru, fydden ni ddim am weld y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ohirio'n amhriodol gan ymdrechion i ehangu ei rychwant er mwyn darparu ar gyfer y sector rhentu preifat. (Paragraff 65)

Er hynny, rydyn ni'n credu bod hwn yn faes polisi pwysig iawn ac felly rydyn ni'n argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog gymryd y camau angenrheidiol i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig ynghylch trefniadau deiliadaeth yn y sector rhentu preifat cyn gynted ag y gellir. (Paragraff 66)

### **Materion 11.2 ac 11.3**

Rydyn ni'n fodlon ar Faterion 11.2 ac 11.3 fel y maen nhw wedi'u drafftio. (Paragraff 92)

#### **Mater 11.4**

Yn amodol ar ein barn ar hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Mater hwn, rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.4 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 111)

#### **Mater 11.5**

O ran Hawl Gymunedol i Brynu, rydyn ni'n nodi rhesymau'r Dirprwy Weinidog dros beidio â cheisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Er hynny, rydyn ni o'r farn y gallai hyn gydategu'r amrediad o bwerau mewn perthynas â gwarediadau sy'n cael eu ceisio o dan y Gorchymyn arfaethedig ac, yng ngoleuni'r dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael, rydyn ni'n gofyn i'r Dirprwy Weinidog ystyried ymestyn rychwant y Gorchymyn arfaethedig i gynnwys Hawl Gymunedol i Brynu ar gyfer tai cymdeithasol. (Paragraff 137)

Yn amodol ar ein sylwadau ar Hawl Gymunedol i Brynu, rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.5 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 138)

#### **Mater 11.6**

Rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.6 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 163)

#### **Mater 11.7**

Rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.7 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 184)

#### **Mater 11.8**

Rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.8 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 210)

#### **Mater 12.18**

Rydyn ni'n fodlon ar Fater 12.18 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 230)

#### **Eithriadau i gymhwysedd deddfwriaethol**

Rydyn ni'n nodi tystiolaeth y Dirprwy Weinidog mewn perthynas ag eithriadau i gymhwysedd deddfwriaethol. (Paragraff 236)

### **Darpariaethau dehongli**

Rydyn ni'n fodlon ar y darpariaethau dehongli fel y maen nhw wedi'u drafftio. (Paragraff 253)

### **Adnoddau**

Rydyn ni'n credu y byddai'n fwy priodol i gwestiwn adnoddau gael ei ystyried fel rhan o Fesurau yn y maes hwn yn y dyfodol, ac yn hyderu y bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i hyn gan y Dirprwy Weinidog ar yr adeg briodol. (Paragraff 258)

### **Materion traws-ffiniol**

Rydyn ni'n nodi tystiolaeth y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â materion traws-ffiniol sy'n codi o'r Gorchymyn arfaethedig. (Paragraff 263)



# 1. Rhagymadrodd

---

## *Y cefndir*

1. Ym mis Tachwedd 2007, yn unol ag ymrwymiad yn *Cymru'n Un* mewn perthynas â'r Hawl i Brynu, gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) (y 'Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol'). Cafodd y Gorchymyn arfaethedig hwnnw ei ystyried a chyflwynwyd adroddiad arno gan un o bwyllgorau'r Cynulliad a can Bwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. Wedyn cafodd Gorchymyn Tai Fforddiadwy drafft ei osod, ar ffurf ddiwygiedig, a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Yn sgil pryderon a godwyd ynghylch cyfreithlondeb un agwedd ar destun terfynol y Gorchymyn drafft,<sup>1</sup> cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer Gorchymyn tai newydd. Oherwydd hynny, wnaeth y Gorchymyn Tai Fforddiadwy drafft ddim cyrraedd pen y daith deddfu drwy Senedd y Deyrnas Unedig.
3. Ar 30 Tachwedd 2009, gosododd Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai, *Orchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010*<sup>2</sup> ('y Gorchymyn arfaethedig') a Memorandwm Esboniadol,<sup>3</sup> yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 – 22.14.
4. Ar 1 Rhagfyr 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n cyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 i gael ei ystyried yn fanwl, yn unol â Rheol Sefydlog 22.16, gan gytuno ar ddyddiad cau ar gyfer adroddiad, sef 29 Ionawr 2010.

## *Hyd a lled gwaith craffu'r Pwyllgor*

5. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 3 Rhagfyr 2009, cytunwyd ar hyd a lled ein gwaith craffu, fel y mae wedi'i nodi isod:

Ystyried —

---

<sup>1</sup> Gweler Seithfed Adroddiad Sesiwn 2008-09 gan Gyd-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin ar Offerynnau Statudol

<sup>2</sup> <http://www.cynulliadcymru.org/lco-ld7808-e.pdf>

<sup>3</sup> <http://www.cynulliadcymru.org/lco-ld7808-em-e.pdf>

- (i) egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylid rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir ym Materion 11.2 - 11.8, a Mater 12.18, i'r Cynulliad; a
- (ii) a yw'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu fframwaith priodol i wireddu'r cynigion polisi sy'n ymwneud â thai cymdeithasol a bodloni anghenion tai pobl sy'n agored i niwed. Yn benodol, ystyried a yw cylch gorchwyl y Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddiffinio mewn ffordd sy'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

### *Tystiolaeth*

6. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahodd sefydliadau allweddol sydd â buddiant yn y pwnc i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo'n gwaith. Mae rhestr o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
7. Cymerwyd tystiolaeth lafar hefyd gan nifer o dystion, y mae eu manylion wedi'u cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
8. Bu'n rhaid inni wneud ein gwaith craffu mewn amser byr iawn ac rydyn ni'n ddiolchgar i bawb a ddarparodd gyflwyniadau ysgrifenedig a rhoi tystiolaeth ar lafar, yn enwedig ar fyr rybudd. Mae eu cyfraniad nhw at ein hystyriaeth ar y Gorchymyn arfaethedig wedi bod yn amhrisiadwy.
9. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi'n hadroddiad mae'n rhaid i ni, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion ynghylch y Gorchymyn arfaethedig sy'n cael eu gwneud gan y canlynol:
  - (i) unrhyw un arall o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;  
a
  - (ii) unrhyw un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gyd-bwyllgor i ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.
10. Does dim argymhellion o'r fath wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.
11. Yr adroddiad a ganlyn yw'r casgliadau rydyn ni wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a daeth i law yn ystod ein gwaith.

## *Amseru*

12. Mae'r Pwyllgor hwn wedi tynnu sylw o'r blaen at y dyddiadau cau buan sy'n cael eu darparu gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer ystyried deddfwriaeth a chyflwyno adroddiadau arni.<sup>4</sup>

13. Rydyn ni'n dymuno gwneud y pwynt eto yn yr achos hwn. Roedd y dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad, sef 29 Ionawr 2010, a gafodd ei bennu gan y Pwyllgor Busnes yn caniatáu cwta bum wythnos i orffen ein gwaith craffu ar y Gorchymyn arfaethedig. Dyna'r amserlen fyrraf sydd wedi'i rhoi inni hyd yn hyn ac roedd yn golygu mai ymarfer ymgynghori o bum wythnos yn unig y gallem ei gynnal, a hynny dros gyfnod y Nadolig.

14. Rydyn ni'n credu bod hyn wedi rhoi pwysau annerbyniol ar y tystion o ran ymateb i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ac wrth roi tystiolaeth inni ar lafar.

15. Rydyn ni'n teimlo hefyd fod y dyddiad cau hwn wedi cyfyngu ar yr amser a oedd ar gael i ni ystyried materion allweddol ar gyfer ein hadroddiad a oedd yn codi o'r dystiolaeth a gawsom, ac i drafod ein hadroddiad a chytuno arno. Serch hynny, rydyn ni wedi llwyddo i gynhyrchu adroddiad llawn.

**16. Rydyn ni'n argymhell yn gryf y dylai'r Pwyllgor Busnes roi rhagor o ystyriaeth i'r dyddiadau cau y mae'n eu pennu ar gyfer adroddiadau ar ddeddfwriaeth, a hynny er mwyn ei gwneud yn haws ennyn diddordeb y cyhoedd mewn craffu ar ddeddfwriaeth a gwella'r broses ddemocrataidd.**

---

<sup>4</sup> Gweler adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar Fesur arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru), Mehefin 2009

## 2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig

---

### *Y cefndir*

17. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') er mwyn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas â thai a llywodraeth leol yng Nghymru drwy fewnosod materion newydd o dan Faes 11 (tai) a Maes 12 (llywodraeth leol) yn ymwneud â'r canlynol:

#### Mater 11.2

Darparwyr tai cymdeithasol.

#### Mater 11.3

Cyrff tai cymdeithasol perthnasol.

#### Mater 11.4

Deiliadaeth tai cymdeithasol ar rent a threfniadau eraill y darperir tai cymdeithasol oddi tanynt.

#### Mater 11.5

Gwarediadau—

- (a) tai cymdeithasol,
- (b) tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai cymdeithasol, neu mewn cysylltiad â thai cymdeithasol, ac
- (c) tir y mae darpariaeth yn unrhyw un neu rai o'r deddfiadau canlynol yn gymwys iddo—
  - (i) Rhan 2 o Ddeddf Tai 1985(a);
  - (ii) Rhan 5 o Ddeddf Tai 1985;
  - (iii) Pennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996(b);
  - (iv) Pennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996;
  - (v) Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(c);

(i'r graddau nad yw gwaredu'r tir yn dod o fewn paragraff (a) neu (b) o'r mater hwn).

#### Mater 11.6

Darparu cyngor a chymorth heb fod yn gymorth ariannol i unigolion mewn cysylltiad â bod unigolion yn cael tai, ac mewn cysylltiad â bod unigolion yn byw mewn tai.

Mae'r mater hwn yn cynnwys, yn arbennig, gyngor a chymorth heb fod yn gymorth ariannol o ran sgiliau sy'n berthnasol i'r gallu i fyw'n annibynnol, neu'n fwy annibynnol, mewn tai.

#### Mater 11.7

Darparu gan awdurdodau lleol safleoedd carafanau i'w defnyddio gan sipsiwn a theithwyr.

#### Mater 11.8

Digartrefedd.

Dehongli'r maes hwn

Yn y maes hwn—

ystyr “safle carafán” yw—

(a) tir y rhoddir carafán neu lety symudol arall (ac eithrio pabell) i sefyll arno er mwyn i bobl fyw ynnddi neu ynddo, a

(b) tir a ddefnyddir ar y cyd â thir sy'n dod o fewn paragraff (a) o'r diffiniad hwn;

ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr “corff tai cymdeithasol perthnasol” yw person (os nad yw, neu i'r graddau nad yw, yn ddarparydd tai cymdeithasol) a chando swyddogaethau o ran—

(a) darparwyr tai cymdeithasol, neu

(b) tai cymdeithasol;

ond os oes gan y person rai swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol neu â thai cymdeithasol, mae person yn gorff tai cymdeithasol perthnasol dim ond i'r graddau y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol neu â thai cymdeithasol;

ystyr "tai cymdeithasol" yw unrhyw dai sy'n cael eu darparu gan ddarparydd tai cymdeithasol;

ystyr "darparydd tai cymdeithasol" yw—

(a) awdurdod lleol, a

(b) person (ac eithrio awdurdod lleol) sy'n darparu tai i bobl nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu'n ddigon da gan y farchnad dai fasnachol (p'un a yw hefyd yn darparu tai i bobl eraill ai peidio a ph'un a oes ganddo hefyd swyddogaethau sy'n ychwanegol at ddarparu tai);

ond, os oes gan awdurdod lleol neu berson arall rai swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â darparu neu ddyrannu tai, mae'r awdurdod neu berson arall yn ddarparydd tai cymdeithasol dim ond i'r graddau y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â darparu ac â dyrannu tai.”.

#### Mater 12.18

Y dreth gyngor sy'n daladwy mewn cysylltiad ag anheddau nad prif breswylfa unigolyn mohonynt.

#### *Memorandwm Esboniadol*

18. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig yn dweud:

“Prif bwrpas y GCD [arfaethedig] yw darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â dwy brif thema, sef tai cymdeithasol a diwallu anghenion pobl hygllwyf am dai.”<sup>5</sup>

19. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y rhain yn feysydd polisi datganoledig lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau

---

<sup>5</sup> Memorandwm Esboniadol para 21

gweithredol helaeth. Er hynny does gan y Cynulliad Cenedlaethol mo'r cymhwysedd deddfwriaethol cyfatebol.<sup>6</sup>

20. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

“Bydd y GCD yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu ei uchelgais, a geir yn *Cymru'n Un* ... sef sicrhau bod yr angen am dai yn cael ei ddiwallu a bod gwell mynediad at dai.”<sup>7</sup>

21. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod nodau *Cymru'n Un* yn cael eu hategu gan ddogfennau strategol allweddol yn y meysydd polisi: y Strategaeth Dai Genedlaethol newydd; yr Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog dros Dai gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy (“Adolygiad Essex”); y Cynllun Digartrefedd Dengmlynedd; y strategaeth ddrafft ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai, *Cefnogi Pobl*; a'r strategaeth ddrafft ar gyfer Sipswn-Teithwyr, *Ar Lwybr Arall*.<sup>8</sup>

*Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

22. Roedd y cyfan o'r ymgynghoreion, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, yn cytuno'n fras â'r egwyddor gyffredinol y dylai cymhwysedd deddfwriaethol ym Materion 11.2 – 11.8 a Mater 12.18 gael ei roi i'r Cynulliad.

23. Yng ngoleuni'r broses barhaus o weithredu argymhellion Adolygiad Essex<sup>9</sup> ynghylch tai fforddiadwy, a datblygu'r Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft, yn ogystal â nifer o adolygiadau annibynnol ar bolisi tai (gan gynnwys cyllid ar gyfer tai, polisi rhent, a chymorth yn gysylltiedig â thai) nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn eu tystiolaeth nhw ei bod hi felly yn briodol ac yn amserol:

“(…) that the Assembly has the necessary legislative competence to take forward their vision for housing in Wales.”<sup>10</sup>

24. Dywedodd CLILC fod eu pryderon ynghylch y Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol wedi cael sylw yn y Gorchymyn ehangach hwn, yr oedden nhw'n teimlo y byddai'n rhoi i'r Cynulliad “the flexibility and

---

<sup>6</sup> Memorandwm Esboniadol para 21

<sup>7</sup> Memorandwm Esboniadol para 22

<sup>8</sup> Memorandwm Esboniadol para 5-9 a para 23

<sup>9</sup> Sue Essex et al, *Tai Fforddiadwy yng Nghymru – Adroddiad Annibynnol i'r Dirprwy Weinidog dros Dai*, Mehefin 2008

<sup>10</sup> HLG6

agility to respond not only to current housing challenges, but also those that may emerge in the short to medium term future.”<sup>11</sup>

25. Rhoddodd Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) groeso i’r Gorchymyn arfaethedig, gan ddweud ei bod yn bwysig yn eu barn nhw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael y modd i ymateb “to such circumstances that might impact on the future quality and supply of affordable housing in Wales.”<sup>12</sup>

26. Nododd CHC hefyd fod y Gorchymyn arfaethedig gryn dipyn yn ehangach ei rychwant na’r Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol, a’u bod yn croesawu “the intention to cover wider areas of competence and not just disposals of land by social landlords”.<sup>13</sup>

27. Roedd Sefydliad Tai Siartredig (CIH) Cymru yr un mor gefnogol i ddatganoli rhagor o bwerau ym maes tai, gan nodi hyn:

“ We feel (...) that it is timely, particularly in relation to our growing capacity and confidence, to look at what we can do to intervene in ways that are appropriate to housing in Wales. This legislative competence Order offers a very good opportunity to take that forward.”<sup>14</sup>

28. Mynegodd Cymorth Cymru gefnogaeth i’r Gorchymyn arfaethedig, gan ddweud y byddai rhagor o ddatganoli pŵer yn y maes polisi hwn yn rhoi i’r Cynulliad :

“(...) the ability to be more responsive, flexible and inclusive in their development of policy which meets the specific needs of vulnerable people and the communities in which they live. Moreover, it will facilitate specific policy decisions to be taken at the most appropriate tier of government (...).”<sup>15</sup>

29. Roedd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru a Shelter Cymru hefyd yn gefnogol yn fras i’r Gorchymyn arfaethedig, a dadleuai’r cyntaf y byddai’n galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fwrw ymlaen ag “a more rounded approach in developing and delivering housing policy in line with the Beecham agenda and one that reflects the approach the

---

<sup>11</sup> HLG6 a Chofnod y Trafodion, para 13, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>12</sup> HLG5

<sup>13</sup> *Ibid.*

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion para 5, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>15</sup> HLG2

housing community has taken in consideration of the Essex review recommendations.”<sup>16</sup>

30. Er bod Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i fynd i'r afael â materion unigol, megis ehangu'r categorïau o ymgeiswyr sy'n cael eu trin fel ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaeth o dan ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd, nododd Shelter Cymru hyn: “in order to enable Wales to fully act in the interest of people facing homelessness and housing need, the Assembly should have the legislative powers to achieve the policy aims it has set both in terms of homelessness, housing supply and allocation as well as the regulation of social housing providers.”<sup>17</sup>

31. Aethon nhw ymlaen i ddweud y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi “the [Welsh] Government to pursue a coherent and long-term policy in terms of housing and homelessness”<sup>18</sup> gan danlinellu'r “huge consensus [amongst housing sector partners] about how the new [housing] agenda should be taken forward in Wales, and that centres very much on that list of matters in the proposed LCO.”<sup>19</sup>

32. Ategodd Stonewall Cymru y Gorchymyn arfaethedig, gan ddweud yn benodol y byddai'n caniatáu ymagwedd fwy holistig at “tackling the crucial challenges in relation to social housing, which has wide-ranging positive implications for [lesbian, gay and bisexual] people in Wales.”<sup>20</sup>

### ***Y sector rhentu preifat***

33. Er y gefnogaeth fras ymhlith yr ymgynghoreion i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, un mater a gafodd ei godi gan nifer o sefydliadau oedd hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â threfniadau deiliadaeth o dan Fater 11.4.

34. Nododd CLILC yn eu tystiolaeth nhw: “this sector plays an important role in the housing market for those who are unable to access owner occupation or social housing, however it is the housing sector where standards are poorest, rents highest and security most limited.”<sup>21</sup>

---

<sup>16</sup> HLG7

<sup>17</sup> HLG1

<sup>18</sup> *Ibid.*

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, para 90, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>20</sup> HLG4

<sup>21</sup> HLG6

35. Fe argymhellon nhw'n gryf y dylai'r Gorchymyn arfaethedig ddarparu ar gyfer y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat, oherwydd "it would make it much easier to look at the housing market as a whole because, as time goes on, the view is that the private rented sector will probably play a more important role in meeting housing need across Wales."<sup>22</sup>

36. Er hynny, pe bai ceisio ehangu rychwant y Gorchymyn arfaethedig i gynnwys y sector rhentu preifat yn golygu na fyddai modd iddo gael ei basio mewn amser priodol, fe nodon nhw y bydden nhw'n hoffi gweld y cymhwysedd hwnnw yn ffurfio pwnc Gorchymyn yn y dyfodol.<sup>23</sup>

37. Adleisiodd Shelter Cymru, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru i gyd rai o'r pryderon a fynegwyd gan CLILC mewn perthynas â hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Gorchymyn arfaethedig.

38. Dywedodd TPAS Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw yr hoffon nhw weld y Gorchymyn arfaethedig yn darparu ar gyfer y sector rhentu preifat, gan fod y sector hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n ehangach o ganlyniad i broblemau wrth gyflenwi tai cymdeithasol ac anawsterau yn y sector perchen-feddiannaeth.<sup>24</sup>

39. Medden nhw:

"Issues of security of tenure, standards of accommodation and affordability of this sector could be addressed with improved legislative powers for the Assembly within this area."<sup>25</sup>

40. Dywedodd Shelter Cymru fod y sector rhentu preifat, yn eu barn nhw, yn bwysig o ran helpu i atal digartrefedd, ac y byddai'n chwarae rhan bwysig i fynd i'r afael â digartrefedd yn y tymor canolig.<sup>26</sup>

41. Aethon nhw ymlaen:

"As a key means of delivering homes to people in Wales – and therefore a key competent of any Government and local authority strategy to address housing needs – it is important

---

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, para 15, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, para 25, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>24</sup> HLG9

<sup>25</sup> *Ibid.*

<sup>26</sup> HLG1

that the Assembly is able to consider and implement any reforms in [the private rented sector] as part of its overall housing strategy.”<sup>27</sup>

42. Fel rhan o’u tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Shelter eu bod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn am gymhwysedd yn y maes hwn yn y dyfodol. Er hynny, wrth roi tystiolaeth lafar, fe newidion nhw’r farn hon ychydig, gan ddweud y byddai hynny’n rhywbeth y bydden nhw’n ei groesawu pe bai modd i rychwant y Gorchymyn arfaethedig gael ei ymestyn.<sup>28</sup>

43. Roedd Cymorth Cymru yn rhannu’r farn hon, gan ddweud y bydden nhw o blaid hynny pe bai’n ymarferol ymestyn rychwant y Gorchymyn arfaethedig, ond pe bai gwneud hynny yn golygu llesteirio cynnydd y Gorchymyn arfaethedig fe fyddai’n well ganddyn nhw i’r sector rhentu preifat fod yn destun Gorchymyn yn y dyfodol.<sup>29</sup>

44. Cydnabu CIH Cymru hefyd y rhan arwyddocaol sy’n cael ei chwarae gan y sector rhentu preifat ond awgrymu, er bod yna resymau da dros fynd ynglŷn â chwestiwn y sector rhentu preifat, fod y diffyg gwaith polisi yn y maes hwn yn golygu y byddai’n well dod yn ôl i’r mater hwn mewn Gorchymyn yn y dyfodol.<sup>30</sup>

45. Dyma farn yr oedd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yn ei rhannu. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, er eu bod yn dadlau bod angen deddfwriaeth mewn perthynas â’r sector preifat gan y dylai tenantiaid fynnu “the same rights and have the same responsibilities regardless of the sector in which they are renting”, roedden nhw’n betrus a oedd y polisi yn y maes hwn yn ddigon aeddfed i’w alluogi i gael ei gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig. Awgrymodd y Ffederasiwn y gallai fod yn destun ar gyfer Gorchymyn yn y dyfodol, “provided it is not too far down the line.”<sup>31</sup>

46. Roedden nhw hefyd o blaid cyflwyno cynllun cofrestru gorfodol i holl denantiaid y sector preifat yng Nghymru, yn lle’r cynllun gwirfoddol cyfredol.<sup>32</sup>

---

<sup>27</sup> HLG1

<sup>28</sup> Cofnod y Trafodion, para 105, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, para 107, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, para 21, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, para 125, 129, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, para 125, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

### ***Ariannu tai cyngor yng Nghymru***

47. Yn eu tystiolaeth nhw, dadleuai CLILC y dylai rhychwant y Gorchymyn arfaethedig roi i'r Cynulliad "sufficient powers to take forward any recommendations of the Review of the financing arrangements for council housing in Wales."<sup>33</sup>

48. Nododd CLILC fod adolygiad tebyg wedi'i gynnal yn Lloegr, ac wedi argymhell y dylai'r awdurdodau lleol gael rhyddid i weithredu fel busnesau tai, a dywedodd CLILC: "if this legislative competence Order goes through in its current form, the Assembly would not have the legislative powers to take forward any recommendations from that review."<sup>34</sup>

49. Dadleuai CLILC:

"(...) our view is that it is important that the competence lies in Wales to address the problems in relation to council house financing in Wales."<sup>35</sup>

### ***Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog***

50. Fel rhan o'i thystiolaeth agoriadol hi, dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn o gwbl, er bod gan Weinidogion Cymru swyddogaethau penodol mewn perthynas â thai.<sup>36</sup>

51. Aeth yn ei blaen:

"Even though a range of executive powers [in relation to housing] rest with Welsh Ministers, they are generally specific powers that are constrained by primary legislation. So (...) we think that having this more coherent approach would allow us to develop policy in a different fashion. So, I think that we would be able to propose legislation in line with policy and to consider more things than just having to rely on the specific powers that any Welsh Minister might currently hold."<sup>37</sup>

---

<sup>33</sup> HLG6

<sup>34</sup> HLG6 a Chofnod y Trafodion, para 32, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, para 32, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, para 19, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>37</sup> *Ibid.*

52. Mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol, y prif wahaniaeth iddi hi, meddai, oedd y diffiniad o 'tai cymdeithasol' y darparwyd ar ei gyfer yn y Gorchymyn arfaethedig. Roedd cynnwys y diffiniad hwn yn golygu nad oedd angen cyfeiriadau mwyach at fathau penodol o landlordiaid neu Ddeddfau Seneddol a oedd yn angenrheidiol yn y Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol, gan wneud y Gorchymyn arfaethedig yn llawer symlach.<sup>38</sup>

53. Dadleuai fod y diffiniad bras iawn o 'tai cymdeithasol' hefyd yn golygu y byddai unrhyw dai a fyddai'n cael eu darparu gan ddarparwydd tai cymdeithasol yn dod o dan y Gorchymyn arfaethedig "(...) and it allows us to be pretty confident that it covers every social housing provider that we want to cover, even if they have not yet been created."<sup>39</sup>

54. O ran y cwestiwn ynglŷn â hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â threfniadau deiliadaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod cryn dipyn o waith datblygu polisi wedi'i wneud yng Nghymru mewn perthynas â thai, ond mai'r sector rhentu cymdeithasol fu'r canolbwynt, ac mai yno yr oedd y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud.<sup>40</sup>

55. Aeth ymlaen:

"[The inclusion of the private rented sector] was not something that we considered and then rejected (...). I am not saying that there is not an awful lot of work to be done on conditions in the private rented sector, but that at the moment, we are not in a position to be able to take this on. It would be a huge area of work and we just do not have the basis on which to take on that competence. I can justify the scope within this proposed Order because of the policy work that we have done."<sup>41</sup>

56. Cyfeiriwyd hefyd ar adolygiad Rugg<sup>42</sup> yn Lloegr. Nododd swyddog y Dirprwy Weinidog hyn: "the Rugg review recommendations included selective licensing and accreditation (...) and some of these things are already happening in Wales".<sup>43</sup>

---

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, para 8, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, para 8 a 10, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, para 50, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, para 53, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>42</sup> <http://www.york.ac.uk/inst/chp/Projects/PRSreview.htm>

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, para 51, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

57. Yn hyn o beth, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn gobeithio gwneud “something constructive on an England-and-Wales basis”.<sup>44</sup> Cadarnhaodd ei swyddog: “in any arrangements, we will ensure that there are powers for Wales to vary the policy where necessary (...) so that the specific circumstances of Wales can be taken into account.”<sup>45</sup>

58. O ran ariannu tai cyngor yng Nghymru, fe ofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog egluro a fyddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu ar y mater hwn yn y dyfodol. Yn ei llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2010, fe gadarnhaodd na fyddai, gan ddweud:

“The Review of The Housing Revenue Account and Housing Revenue Account Subsidy Regimes in Wales is currently being undertaken. The review will take into account the implications for Wales arising from the Review of Council Housing Finance in England. It will set out options for reform in Wales, set in the context of the current and future financial arrangements between the Welsh Assembly Government and HM Treasury. Any future proposals for legislative change will need to be developed taking into account the role of HM Treasury.”

*Ein barn ni*

### **Cyffredinol**

59. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth eang a fynegwyd gan yr holl ymgynghoreion i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig.

60. Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd y Gorchymyn arfaethedig i roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ynghylch tai cymdeithasol a diwallu anghenion pobl sy'n agored i niwed ym maes tai, drwy ganiatáu i'r ymrwymadau polisi a nodwyd mewn dogfennau sy'n cynnwys '*Cymru'n Un*', Adolygiad Essex ar dai fforddiadwy a'r Strategaeth Dai Genedlaethol gael eu gwireddu.

61. Rydyn ni'n nodi tystiolaeth yr ymgynghoreion sy'n croesawu ehangder rhychwant y Gorchymyn arfaethedig o'i gymharu â'r Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol ac rydyn ninnau hefyd yn croesawu hynny.

---

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, para 50, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, para 51, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

**62. Rydyn ni'n ategu egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, yn amodol ar ein barn am hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â threfniadau deiliadaeth, sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 63 - 66.**

#### **Y sector rhentu preifat**

63. Rydyn ni'n cydnabod y dystiolaeth a gawson ni gan yr ymgynghoreion ynghylch hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â threfniadau deiliadaeth o dan Fater 11.4.

64. Rydyn ni'n cydnabod y rhan bwysig y mae'r sector hwn yn ei chwarae yn y farchnad dai o ran darparu llety i bobl y mae angen tai arnyn nhw a helpu i atal digartrefedd. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod yna fwy o ddefnyddio ar y sector rhentu preifat i leddfu'r pwysau ar dai cymdeithasol ac o ganlyniad i anawsterau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd perchen-feddiannaeth. Gan hynny, rydyn ni wedi cael siom nad yw'r sector rhentu preifat o fewn rychwant y Gorchymyn arfaethedig.

**65. O gofio mor bwysig yw'r Gorchymyn arfaethedig o ran gwireddu'r cynigion polisi ynghylch tai cymdeithasol a bodloni anghenion tai pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru, fydden ni ddim am weld y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ohirio'n amhriodol gan ymdrechion i ehangu ei rychwant er mwyn darparu ar gyfer y sector rhentu preifat.**

66. Er hynny, rydyn ni'n credu bod hwn yn faes polisi pwysig iawn ac felly rydyn ni'n argymhell y dylai'r Dirprwy Weinidog gymryd y camau angenrheidiol i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig ynghylch trefniadau deiliadaeth yn y sector rhentu preifat cyn gynted ag y gellir.

#### **Ariannu tai cyngor**

67. Rydyn ni'n cydnabod y dystiolaeth a gawson ni mewn perthynas â'r adolygiad ar gyllid i dai cyngor sydd ar ei hanner yng Nghymru, a'r angen i'r Gorchymyn arfaethedig roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes yma i'r Cynulliad.

68. Er hynny, rydyn ni'n derbyn tystiolaeth y Dirprwy Weinidog y bydd angen i unrhyw gynigion i newid y ddeddf yn y maes hwn gael eu

datblygu gan gymryd rôl Trysorlys Ei Mawrhydi i ystyriaeth. Ar y sail honno, rydyn ni'n fodlon mai mater i'w ystyried yn y dyfodol yw hwn, yn sgil canlyniad yr adolygiad.

### 3. Rychwant y Gorchymyn arfaethedig

---

#### Materion 11.2 ac 11.3

##### *Y cefndir*

69. Byddai Mater 11.2 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch darparwyr tai cymdeithasol.<sup>46</sup>

70. Byddai Mater 11.3 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch cyrff tai cymdeithasol perthnasol.<sup>47</sup>

71. O'u cymryd gyda'i gilydd, byddai Materion 11.2 ac 11.3 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â rheoleiddio darparwyr tai cymdeithasol a chyrff tai cymdeithasol perthnasol, ac i ddeddfu mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol.<sup>48</sup>

##### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

72. Mynegodd pob ymgynghorai a gyflwynodd sylwadau ar Faterion 11.2 ac 11.3 gefnogaeth fras i drosglwyddo cymhwysedd yn y meysydd hyn.

73. Rhoddodd Cartrefi Cymunedol Cymru groeso i gyflwyno diffiniad newydd o dai cymdeithasol sy'n cynnwys "all social housing providers in Wales", gan ddweud eu bod yn derbyn "that the definition is meant to be wide to cover anyone operating within social housing now or in the future", a dadlau y byddai'r cymhwysedd arfaethedig yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol:

“(...) to consider legislation to implement a comprehensive regulatory regime, developed in partnership between the Assembly Government and the Housing Sector in Wales.”<sup>49</sup>

74. Mynegodd CLILC eu cefnogaeth nhw i Faterion 11.2 ac 11.3, gan ddweud hyn: “it will allow the vision for housing in Wales that has emerged through recent national policy discussions to be taken forward”.<sup>50</sup>

---

<sup>46</sup> Memorandwm Esboniadol para 49

<sup>47</sup> Memorandwm Esboniadol para 50

<sup>48</sup> Memorandwm Esboniadol para 51

<sup>49</sup> HLG5

<sup>50</sup> HLG6

75. Adleisiodd CLILC farn Cartrefi Cymunedol Cymru wrth groesawu'r diffiniadau eang o 'darparwyr tai cymdeithasol' a 'corff tai cymdeithasol' gan ddadlau y byddai hynny'n caniatáu i'r cymhwysedd deddfwriaethol gael ei ddiogelu rhag newidiadau yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw gyfryngau newydd ym maes tai a allai gael eu datblygu yng Nghymru.<sup>51</sup> Gwnaeth Ffederasiwn Tenantiaid Cymru a CIH Cymru bwyntiau tebyg yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw.<sup>52</sup>

76. Rhoddodd CLILC groeso hefyd i'r Materion yn yr ystyr y bydden nhw'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio eiddo cymdeithasau tai yng Nghymru sy'n perthyn i landlordiaid sydd wedi'u cofrestru yn Lloegr.<sup>53</sup>

77. Roedd Shelter Cymru o blaid trosglwyddo cymhwysedd o dan y Materion hyn, gan ddweud bod sicrhau pwerau dros ddyrannu tai yn angenrheidiol ac y byddai hynny'n galluogi:

“(...) the Assembly and Welsh Government to wholly consider the allocation system and how providers – including housing associations - prioritise allocation.”<sup>54</sup>

78. Cyfeiriodd Shelter Cymru hefyd yn eu tystiolaeth nhw at ymddiriedolaethau tir cymunedol, gan ddweud eu bod yn gobeithio bod yna le yn y Gorchymyn arfaethedig i gefnogi datblygu'r ymddiriedolaethau hyn:

“(...) our argument has always been that we should make it as easy as possible to develop community land trusts as long as, of course, communities actually want community land trust developments to go ahead. If there are ways in which that can be assisted through the legislative process, then we would welcome that.”<sup>55</sup>

79. Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd Shelter Cymru fod angen diffiniad Cymreig o 'ymddiriedolaeth tir cymunedol' a hynny er mwyn “make it easier to understand what it is, the regulations that support it, and how it would access funds, and so on.”<sup>56</sup>

---

<sup>51</sup> HLG6

<sup>52</sup> HLG7, HLG8

<sup>53</sup> HLG6

<sup>54</sup> HLG1

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, para 109, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>56</sup> *Ibid.*

80. Roedd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru hefyd o blaid model yr ymddiriedolaeth tir cymunedol, gan ddweud bod yna gyfleoedd, mewn ardaloedd gwledig, o dan y diffiniad o 'landlordiaid cymdeithasol' i ddiffinio landlordiaid cymdeithasol mewn cyd-destun ehangach, megis perchnogaeth gymunedol.<sup>57</sup>

#### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

81. Mewn perthynas â Mater 11.2, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"(...) the Welsh Assembly Government is the regulator for housing associations in Wales, and shortly after I became Deputy Minister, the sector itself requested a review of the regulatory regime, which had not been updated for a number of years, and that is why we had the Essex review. Early intervention powers are identified as being lacking at present, and we would hope to get those powers, which would complete the powers in relation to the regulation of registered social landlords."<sup>58</sup>

82. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai dyrannu tai cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn rhychwant Mater 11.2. Dywedodd ei swyddog:

"Allocations are a statutory function of local authorities and there are also nominations in conjunction with registered social landlords at the moment. (...) In addition, the definition of a social housing provider refers specifically to allocations, so it puts it beyond doubt that it is in the frame."<sup>59</sup>

83. Mewn perthynas â Mater 11.3, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"[The Matter] is as broad as we could possibly make it (...). Local authorities are obviously mentioned, but any body that provides social housing, under that very broad definition of social housing, would be covered by this".<sup>60</sup>

84. Aeth ymlaen i ddweud:

"(...) we could legislate in the future to define a social housing provider in a different way in the legislation that we pass. It

---

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, para 150, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion, para 34, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, para 40-41, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, para 44, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

would not necessarily apply to every body over which we have competence; any legislation that we passed could apply to a narrower group. However, we wanted to ensure that we covered everyone who operates in this fashion, and anyone who might operate in this fashion in the future.”<sup>61</sup>

85. Mewn perthynas ag ymddiriedolaethau tir cymunedol, fe ofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog gadarnhau a oedd yna fwriad i'r term 'darparydd tai cymdeithasol' gynnwys ymddiriedolaethau tir cymunedol, ac a oedd yn caniatáu darparu ar gyfer diffiniad o 'ymddiriedolaeth tir cymunedol' mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

86. Cadarnhaodd mai dim ond i'r graddau bod ymddiriedolaethau o'r fath yn cyflawni swyddogaethau darparu tai ar gyfer pobl nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni'n ddigonol gan y farchnad dai fasnachol y byddai cymhwysedd o dan Fater 11.2 yn cynnwys ymddiriedolaethau tir cymunedol. Eglurodd hefyd na fyddai Mater 11.2 yn cynnwys yr ymddiriedolaethau tir cymunedol presennol pe bai ei gweithgareddau wedi'u cyfyngu i gaffael tir a'i reoli, yn hytrach na darparu tai.<sup>62</sup>

87. O ran diffinio 'ymddiriedolaeth tir cymunedol' yn y dyfodol, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi cymhwysedd i ddiffinio'r term hwn ar y sail bod ymddiriedolaethau o'r fath yn ddarparwyr tai cymdeithasol neu fod ganddyn nhw swyddogaethau mewn perthynas â darparwyr tai cymdeithasol neu dai cymdeithasol. Pe bai ymddiriedolaeth tir cymunedol yn cael ei sefydlu i gaffael tir neu i ddal tir er mwyn darparu tai cymdeithasol, meddai, byddai'r ymddiriedolaeth honno'n cael ei chynnwys gan y cymhwysedd o dan y Gorchymyn arfaethedig. Er hynny, byddai unrhyw ddiffiniad o ymddiriedolaeth tir cymunedol yn cael ei gyfyngu i ymddiriedolaethau a fyddai'n cyflawni swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol, yn hytrach na hybu buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned.<sup>63</sup>

*Ein barn ni*

88. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth eang a fynegwyd gan y rhanddeiliaid i drosglwyddo cymhwysedd mewn perthynas â Materion 11.2 ac 11.3, a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â rheoleiddio

---

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, para 44, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>62</sup> [Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, 18 Ionawr 2010](#)

<sup>63</sup> *Ibid.*

darparwyr tai cymdeithasol, cyrff tai cymdeithasol perthnasol ac mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol.

89. Rydyn ni'n croesawu'r Materion hyn fel modd i ganiatáu gweithredu mentrau polisi arwyddocaol mewn perthynas â thai cymdeithasol yng Nghymru, ac rydyn ni'n annog parhad yn y cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector tai yng Nghymru i wireddu hyn.

90. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r diffiniadau eang sydd ynghlwm wrth Faterion 11.2 ac 11.3, a'u pwysigrwydd wrth ddiogelu'r cymhwysedd deddfwriaethol rhag newidiadau yn y dyfodol.

91. Rydyn ni'n nodi ac yn fodlon ar dystiolaeth y Dirprwy Weinidog bod y Gorchymyn arfaethedig yn darparu ar gyfer ymddiriedolaethau tir cymunedol ond dim ond i'r graddau bod yr ymddiriedolaethau hynny'n cyflawni swyddogaethau darparu tai ar gyfer personau nad yw'r farchnad dai fasnachol yn bodloni eu hanghenion yn ddigonol a lle mae gweithgareddau'r ymddiriedolaeth yn ymwneud â darparu tai yn unig.

**92. Rydyn ni'n fodlon ar Faterion 11.2 a 11.3 fel y maen nhw wedi'u drafftio.**

## **Mater 11.4**

### *Y cefndir*

93. Mae Mater 11.4 yn ymwneud â threfniadau deiliadaeth ar gyfer tai cymdeithasol ar rent, gan gynnwys y gyfundrefn o denantiaethau diogel a sicr i denantiaid awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y drefn honno.<sup>64</sup>

94. Argymhellodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith *Renting Homes* (2006), ymhlith pethau eraill, system symlach o gontractau diogel a safonol yn lle'r doreth gyfredol o fathau o denantiaeth a thrwydded. Byddai'r Mater hwn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn.

95. Fyddai cymhwysedd o dan y Mater hwn ddim yn cynnwys tenantiaethau yn y sector preifat y tu allan i dai cymdeithasol.<sup>65</sup>

---

<sup>64</sup> Memorandwm Esboniadol para 52

<sup>65</sup> *Ibid.*

## *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

96. Cafwyd consensws barn ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â nhw y byddai diwygio'r gyfraith ar ddeiliadaeth, yn enwedig mewn perthynas â thai cymdeithasol, yn ddatblygiad cadarnhaol ac angenrheidiol.

97. Yn eu tystiolaeth nhw, dywedodd cartrefi Cymunedol Cymru hyn:

“Reform is necessary in order to ensure that there is a unitary set of social tenure rights in Wales and to avoid the scope for confusion. One specific issue [which is] important to draw upon is stock transfer and the effect of switching between the two types of tenancies when transferring from a local authority to a RSL [registered social landlord].”<sup>66</sup>

98. Aethon nhw ymlaen:

“If you are a tenant of a local authority you have slightly different rights than if you were a tenant of a housing association and it has been difficult to justify the differences. There is a need to set out clear rights and simple arrangements- therefore we support the idea of creating a tenancy that is just for the social rented sector.”<sup>67</sup>

99. Cafodd y pryderon hyn eu mynegi o safbwynt y tenantiaid gan Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, a roddodd groeso i'r datblygiad “hir-ddisgwyliedig” sef cael un denantiaeth ddiogel ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru fel cyfrwng ar gyfer “equalising and standardising rights and responsibilities across the sector.”<sup>68</sup>

100. Cyfeiriodd CLILC, Shelter Cymru, CIH Cymru a Chymorth Cymru i gyd yn eu tystiolaeth ysgrifenedig at y potensial ar gyfer math newydd o ddeiliadaeth wedi'i dylunio'n unswydd ar gyfer llety dan gymorth.

101. Rhoddodd CLILC groeso i'r rhagolwg o gael un denantiaeth mewn tai cymdeithasol fel ffordd i ddarparu “greater clarity for tenants and prospective tenants (...) and [introducing] a long overdue consistent pattern of rights and obligations for all social landlords and tenants.” Tebyg oedd barn CIH Cymru hefyd.<sup>69</sup>

---

<sup>66</sup> HLG5

<sup>67</sup> *Ibid.*

<sup>68</sup> HLG7

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion, para 50, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

102. Atgyfnerthodd CLILC y pwynt hwn yn eu tystiolaeth lafar, gan ddweud:

“I would see it as a logical conclusion to the focus that we have in Wales of putting the citizen at the centre of the services that we provide. If you look at it from the point of view of a tenant, there should be uniform obligations and rights across the two sectors.”<sup>70</sup>

103. Nododd Shelter Cymru fod yna fesur o ansicrwydd yn y sector tai dan gymorth ar hyn o bryd mewn perthynas â deiliadaeth a'i bod yn “apparent that providers are not currently clear about their powers and responsibilities in this area of tenure, while it is also the case that the current situation does not enable them to act flexibly to protect residents and staff.” Dadleuai Shelter Cymru y byddai'r pwerau o dan Fater 11.4 yn cynnig cyfle i egluro'r arferion a'r gweithdrefnau cyfredol yn y maes hwn.<sup>71</sup>

104. Cyfeiriodd nifer o'r ymgynghoreion at hepgor y sector rhentu preifat o Fater 11.4. Rydyn ni'n trafod y mater hwn yn fanylach ym Mhennod 2 o'n hadroddiad, paragraffau 33 - 46.

#### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

105. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Members will know that if you are a tenant of a local authority, you have slightly different rights than if you were a tenant of a housing association. Most of the time, that does not bother people at all, but, during debates on stock transfer, when tenants think that their rights could be different, even if they are staying with the same landlord, it has been difficult to justify the differences, especially today. In those cases, normally the local authority guarantees that its current tenants will keep all of their current rights, but that does not apply to any new tenants.”<sup>72</sup>

---

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, para 41, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>71</sup> HLG1

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, para 47, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

106. Dywedodd fod hyn yn rhywbeth a oedd wedi'i godi gyda hi gan gynrychiolwyr tenantiaid, a dadleuai "we would have universal support for creating a tenancy that is just for the social rented sector."<sup>73</sup>

#### *Ein barn ni*

107. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth gref a fynegwyd gan yr ymgynghoreion i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Mater 11.4.

108. Rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw'r Mater hwn i roi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu i ddiwygio'r gyfraith deiliadaeth yng Nghymru sy'n ymwneud â thai cymdeithasol, er mwyn rhoi eglurder a sicrwydd deiliadaeth i ddarpar denantiaid a thenantiaid presennol tai cymdeithasol ac i ddarparwyr tai cymdeithasol.

109. Rydyn ni'n cydnabod ymhellach y bydd cymhwysedd yn y maes hwn yn caniatáu i sylw gael ei roi i bryderon sydd wedi'u mynegi ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer deiliadaeth yn y sector tai dan gymorth.

110. Rydyn ni'n cyfeirio'r Dirprwy Weinidog at ein casgliadau ynghylch trefniadau deiliadaeth yn y sector rhentu preifat, paragraffau 63 - 66.

**111. Yn amodol ar ein barn ar hepgor y sector rhentu preifat o rychwant y Mater hwn, rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.4 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

### **Mater 11.5**

#### *Y cefndir*

112. Mae Mater 11.5 yn ymwneud â gwaredu tir a byddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd neu'r Hawl i Gaffael i denantiaid awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Byddai cymhwysedd o dan y Mater hwn yn gymwys hefyd i drosglwyddiadau gwirfoddol, gan gynnwys trosglwyddiadau stoc.<sup>74</sup>

113. Mae'r Mater hwn yn debyg yn fras o ran ei rychwant i'r Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol.

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, para 48, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>74</sup> Memorandwm Esboniadol para 53

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

114. Roedd yna gefnogaeth eang ymhlith yr ymgynghoreion i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol o dan y Mater hwn.

115. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Shelter Cymru:

“As Wales will be considering the development of a new system to prevent homelessness, exploring innovative ways of providing access to homes to rent and buy and the means of making the best use of the existing housing stock, it is essential that the Assembly is able to consider all aspects relating to supply and issues which could impact on the stock in the future e.g. the sale of social housing.”<sup>75</sup>

116. Aethon nhw ymalen:

“In this respect, it is important that the Assembly is able to take measures to enable local authorities and housing providers to protect the housing stock (and any new stock) where necessary, whilst developing strategies to increase the provision of suitable homes and empowering households to access home ownership through cost effective and sustainable routes.”<sup>76</sup>

117. Adleisiwyd y pwyntiau hyn yn eu tystiolaeth lafar, ond tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gael cynllun hefyd i gyd-fynd ag unrhyw benderfyniad i atal yr Hawl i Brynu yn y dyfodol mewn ardaloedd lle mae tai cymdeithasol o dan bwysau. Dywedodd Shelter Cymru fod angen rhoi ystyriaeth i sut i drefnu bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yn ystod unrhyw gyfnod o atal yr Hawl i Brynu.<sup>77</sup>

118. Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru fod Gweinidogion Cymru eisoes wedi defnyddio pwerau i leihau faint o ddisgownt sydd ar gael o dan yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael, gan groesawu'r ffaith bod y Mater hwn yn cynnwys gwaredu gwirfoddol fel trosglwyddiadau stoc, yn ogystal â gwaredu statudol megis yr Hawl i Brynu.<sup>78</sup>

119. Yn eu tystiolaeth nhw, dywedodd CLILC fod mwy na hanner cant y cant o'r tai sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol, yn enwedig y stoc orau, eisoes wedi'i werthu o dan yr Hawl i Brynu ers 1980.

---

<sup>75</sup> HLG1

<sup>76</sup> *Ibid.*

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, para 157, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>78</sup> HLG5

Oherwydd hynny, ac mewn perthynas â'r Hawl i Brynu yn arbennig, dywedodd CLILC nad oedd deddfwriaeth yn y maes hwn yn debyg o gael effaith arwyddocaol ar y cyflenwad o dai cymdeithasol.<sup>79</sup>

120. Er hynny, nododd CLILC fod yna bocedi o dai cymdeithasol hollbwysig, yn enwedig yn yr ardaloedd lleiaf, mwyaf gwledig, a oedd yn ased gwerthfawr i'r gymuned.<sup>80</sup>

121. Er nad oedd effaith gyffredinol deddfwriaeth yn y maes hwn yn debyg o fod yn arwyddocaol, roedden nhw'n teimlo "it could have strategic significance in some parts of Wales and we would therefore support the idea of local authorities having the power to suspend the right [to buy], to allow them to address specific issues and needs in their local community."<sup>81</sup>

122. Rhoddodd TPAS, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru a CIH Cymru i gyd groeso i'r cymhwysedd a oedd yn cael ei geisio o dan y Mater hwn, a dywedodd CIH Cymru:

"We firmly support the aspirations of social housing tenants for homeownership, but in our opinion there are other products and initiatives (particularly flexible tenure) that are more fit-for-purpose in today's housing system. (...) Suspending the Right to Buy could add to the policy tools at the disposal of local authorities and as such we feel it is appropriate that the Assembly should have the power to allow local authorities to suspend the Right to Buy in areas of housing pressure."<sup>82</sup>

123. Roedd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru hefyd yn cefnogi trefniadau mwy hyblyg ar gyfer deiliadaeth y gellid darparu ar eu cyfer o dan y Gorchymyn arfaethedig, megis rhan-berchnogaeth, lle gallai tenant brynu cyfran o'r ecwiti yn ei gartref. Dywedodd y Ffederasiwn fod y rheolau cyfredol wedi'u pwysoli yn erbyn cytundebau rhan-berchnogaeth oherwydd, unwaith y byddai'r perchen-denantiaid yn gwneud cytundeb o'r fath, fe fydden nhw'n dod yn gyfrifol am yr holl waith trwsio ar yr eiddo.<sup>83</sup>

124. Dadleuai'r Ffederasiwn:

---

<sup>79</sup> HLG6

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion, para 45, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>81</sup> *Ibid.*

<sup>82</sup> HLG8

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, para 158, 159, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

“We need a fairer system that helps to build social mobility in our communities so that people (...) can buy an equity stake in their homes to use as a capital asset for later pension provision or to see them through a crisis of some sort, There would also be a benefit to the public purse, because (...) housing benefit would be reduced as a consequence.”<sup>84</sup>

125. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, tanlinellodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru y problemau wrth sicrhau tai fforddiadwy yng nghan gwlad Cymru o ganlyniad i'r Hawl i Brynu gan ddweud eu bod nhw'n credu, oherwydd hynny ei bod yn “holl bwysig” i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.<sup>85</sup> tebyg oedd barn CIH Cymru.<sup>86</sup>

126. Yn eu tystiolaeth nhw, cododd Shelter Cymru fater yr Hawl Gymunedol i Brynu hefyd, gan esbonio bod hyn yn rhywbeth a gafodd ei gyflwyno yn yr Alban rai blynyddoedd yn ôl, a'i fod yn golygu hyn: “a community being able to have a first refusal, almost, on buying any land that might become available in its area.”<sup>87</sup>

127. Aethon nhw ymlaen:

“This is something that has gone forward in Scotland, not entirely successfully, but there are things that we might learn from the Scottish experiment. Community right to buy works very well with, for example, the issue of community land trusts and in terms of providing more affordable and sustainable housing for people in need in local communities.”

128. Awgrymodd Shelter Cymru fod yr Hawl Gymunedol i Brynu yn rhywbeth a ddylai gael ei ystyried mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig, oherwydd “(...) like all good law, (...) you do not have to use it all the time, you just need to know that it is there (...)”<sup>88</sup>

129. Er hynny, fe ddywedon nhw na fydden nhw am weld y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ohirio oherwydd hyn.<sup>89</sup>

---

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, para 159, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>85</sup> HLG12

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, para 68, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, para 119, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, para 120, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, para 101, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

130. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd y Dirprwy Weinidog, “Ers cyflwyno'r cynllun Hawl i Brynu (...) mae dros 140,000 o anheddau wedi eu prynu gan denantiaid yng Nghymru. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol y nifer o dai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl y mae arnynt angen tai”.<sup>90</sup>

131. Aeth yn ei blaen i ddweud bod Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'u pwerau gweithredol i wneud is-ddeddfwriaeth i “feithrin dull neilltuol” i Gymru, ond y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad dros faes polisi tai yn ei grynswth, gan roi sylw i “natur dameidiog pwerau gweithredol, yn gwneud y setliad datganoli'n fwy clir ac yn sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hyblygrwydd i wella trefniadau cyfredol. (...) Mae hefyd yn sicrhau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd fabwysiadu dull mwy cydlynus o ddatblygu polisi yn unol â'r amcanion polisi.”<sup>91</sup>

132. Fel rhan o'i thystiolaeth lafar, ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog ar yr wybodaeth a roddwyd yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch rhychwant ac effaith Mater 11.5:

“Members will recognise Matter 11.5 as the scope of the previous proposed Order, so this is a general power over the disposals of registered social landlords. This covers stock transfer, the right to buy, the preserved right to buy and the right to acquire. So, it covers all of those statutory and voluntary disposals.”<sup>92</sup>

133. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog pam roedd hi wedi teimlo bod angen cynnwys y rhestr o ddeddfiadau ym Mater 11.5(c). Esboniodd ei swyddog:

“Although most housing will be held by social housing providers, there may be certain parcels of land that are not. That is the reason, notwithstanding the breadth of paragraphs (a) and (b), for the inclusion of the enactments in paragraph (c). (...) It is rather complicated, admittedly, but it is there for the

---

<sup>90</sup> Memorandwm Esboniadol, para 34

<sup>91</sup> Memorandwm Esboniadol, para 37

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion, para 62, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

avoidance of doubt, to ensure that all land that is or should be treated as land that is connected to social housing is covered.”<sup>93</sup>

134. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog a oedd y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys yr Hawl Gymunedol i Brynu. Cadarnhaodd nad oedd, gan ddweud:

“I understand the Community Right to Buy was developed [in Scotland] to address issues involving small communities situated on large private estates (...) where the landlord was often absent. As far as I am aware, we do not have such estates in Wales. Neither have I received any representations to introduce a similar right in Wales.”<sup>94</sup>

### *Ein barn ni*

135. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth eang a fynegwyd gan yr ymgynghoreion i'r cymhwysedd deddfwriaethol y darperir ar ei gyfer ym Mater 11.5.

136. Rydyn ni'n croesawu'r Mater hwn fel modd i sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn maes polisi lle mae ystod o bwerau gweithredol tameidiog ar gael eisoes. Rydyn ni'n cydnabod y swyddogaeth ddemocrataidd bwysig y bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i'w chyflawni wrth ddatblygu polisi tai cynhwysfawr i Gymru.

**137. O ran Hawl Gymunedol i Brynu, rydyn ni'n nodi rhesymau'r Dirprwy Weinidog dros beidio â cheisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Er hynny, rydyn ni o'r farn y gallai hyn gydategu'r amrediad o bwerau mewn perthynas â gwarediadau sy'n cael eu ceisio o dan y Gorchymyn arfaethedig ac, yng ngoleuni'r dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael, rydyn ni'n gofyn i'r Dirprwy Weinidog ystyried ymestyn rhychwant y Gorchymyn arfaethedig i gynnwys Hawl Gymunedol i Brynu ar gyfer tai cymdeithasol.**

**138. Yn amodol ar ein sylwadau ar Hawl Gymunedol i Brynu, rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.5 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

---

<sup>93</sup> Cofnod y Trafodion, para 64 - 68, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>94</sup> [Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, 18 Ionawr 2010](#)

## Mater 11.6

### *Y cefndir*

139. Mae Mater 11.6 yn ymwneud â darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i'r rhai y mae arnyn nhw angen help i gynnal neu i feithrin y gallu i feddiannu eu cartref. Mae'r Mater hwn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth heblaw cymorth ariannol i bersonau mewn perthynas â medrau sy'n berthnasol i'w gallu i fyw'n annibynnol neu'n fwy annibynnol nag y gallen nhw fel arall.<sup>95</sup>

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

140. Unwaith eto, roedd yna gefnogaeth eang i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol o dan y Mater hwn.

141. Dywedodd yr ymgynghoreion wrthon ni fod cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ariannu'n bennaf trwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, a gafodd ei lansio yn 2003. Cyn i honno gael ei chyflwyno, "organisations would see themselves as mental health organisations that did housing, learning disability organisations that did housing or older people organisations that did housing; now a sector has been created through the single funding stream and everyone is coming together."<sup>96</sup>

142. Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol o gymorth sy'n gysylltiedig â thai.<sup>97</sup>

143. Wrth fynegi eu cefnogaeth nhw i'r Mater, nododd Cymorth Cymru fod yna gysylltiad agos rhwng cymorth sy'n gysylltiedig â thai a meysydd polisi eraill megis gofal cymdeithasol. Dywedon nhw eu bod yn credu y gallai'r Gorchymyn arfaethedig gynnig:

"(...) an opportunity to strengthen links across these two areas of policy so that the needs of vulnerable people are better met within our community."<sup>98</sup>

---

<sup>95</sup> Memorandwm Esboniadol para 54

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, para 159, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>97</sup> Llywodraeth Cymru, Jocelyn Davies (y Dirprwy Weinidog dros Dai), *Adolygu'r Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 2 Rhagfyr 2009

<sup>98</sup> HLG2

144. Roedd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a TPAS Cymru hefyd i gyd yn ymboeni ynglŷn â'r cymorth sy'n cael ei roi i bobl sy'n agored i niwed.<sup>99</sup>

145. Tanlinellodd Cymorth Cymru hefyd ddatblygiadau polisi mewn perthynas â grwpiau penodol o gleientau, megis pobl hŷn sy'n agored i niwed, gan ddweud y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn eu galluogi i wneud hyn: "ensure housing and support services maximise their contribution to helping older people remain as independent as possible."<sup>100</sup>

146. Yn ei dystiolaeth yntau, dywedodd Darran Daye, Rheolwr Cefnogi Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ei fod yn credu y byddai Mater 11.6 yn helpu i sicrhau "the continued provision of housing relating support within a clear statutory framework." Dadleuai fod hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd ariannol gyfredol, a heb fframwaith o'r fath i nodi'r gofynion ar yr awdurdodau lleol i roi cymorth priodol, "the future direction of the [Supporting People] programme may be at risk."<sup>101</sup>

147. Er hynny, yn eu tystiolaeth nhw, dywedodd Rhwydwaith Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPIN): "whilst the majority of the network would welcome the widening of the Assembly's powers in relation to housing related support, (...) there are certain concerns within some authorities in relation to any legislation which has an impact on Supporting People."<sup>102</sup>

148. Fe aethon nhw ymlaen:

"(...) one of the great benefits of Supporting People services is that they currently sit outside the statutory framework. This allows services to be flexible, to be delivered to those people who often 'fall through the gaps' of other provision and are easily accessible without the need for the individual to undergo lengthy assessment / eligibility criteria."<sup>103</sup>

---

<sup>99</sup> HLG7, HLG5, HLG9 yn eu trefn

<sup>100</sup> HLG2

<sup>101</sup> HLG3

<sup>102</sup> HLG11

<sup>103</sup> *Ibid.*

149. Dywedon nhw na fyddai rhai o'u haelodau am weld y cryfderau presennol hyn yn cael eu bygwth drwy gael eu tynnu i mewn i broses gyfreithiol a allai arwain at hepgor pobl o wasanaethau.<sup>104</sup>

150. Cyfeiriodd llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn eu tystiolaeth at yr adolygiad annibynnol a gafodd ei gomisiynu gan y Dirprwy Weinidog, gan gynnwys CIH Cymru, a roddodd groeso cryf i'r adolygiad o gymorth sy'n gysylltiedig â thai gan ddweud ei bod yn bwysig, yn eu barn nhw "that the Assembly has the appropriate power to be able to implement any recommendations and proposals generated by this review when it reports back later this year."<sup>105</sup>

151. Cafodd y farn hon ei hadleisio gan Gymorth Cymru, a oedd yn teimlo bod yr amrywiadau polisi yn Lloegr a'r Alban mewn perthynas â chymorth sy'n gysylltiedig â thai yn golygu ei bod yn bwysig i'r Cynulliad gael pwerau i roi argymhellion yr adolygiad ar waith.<sup>106</sup>

152. Er hynny, dywedodd CLILC nad oedden nhw'n glir ynglŷn â'r angen i ddeddfu yn y maes hwn, gan awgrymu mabwysiadu fframwaith comisiynu<sup>107</sup> fel ffordd i sicrhau safonau cyson mewn cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

153. Er hynny, yn eu tystiolaeth lafar, cydnabu CLILC, gan na fyddai'n bosibl rhagfynegi argymhellion yr adolygiad ynghylch cymorth sy'n gysylltiedig â thai: "(...) as a fail-safe, it might be appropriate to have these powers, even though we might not be clear at this point in time what those recommendations might be."<sup>108</sup>

#### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

154. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Dirprwy Weinidog yn nodi y byddai cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Mater 11.6 yn caniatáu "datblygu deddfwriaeth gydlynol er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad fwrw ymlaen â'i pholisi ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer y

---

<sup>104</sup> HLG11

<sup>105</sup> HLG8

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, para 160, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>107</sup> Mae CLILC yn cyfeirio at y fframwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, sydd allan at ddibenion ymgynghori ar hyn o bryd.

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion, para 51, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

rhai ac arnynt angen help i gynnal a chadw eu cartref neu i ddatblygu'r gallu i feddiannu eu cartref.”<sup>109</sup>

155. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i esbonio bod Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn defnyddio pwerau cyffredinol sy'n gysylltiedig â lles i ddarparu grantiau yn y maes hwn, drwy'r rhaglenni Cefnogi Pobl, i'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae'r cymorth hwn sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei roi er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol, neu'n fwy annibynnol, nag y gallen nhw fel arall.

156. Yn olaf, mae'n dweud:

“Byddai cymhwysedd yn y maes hwn yn ategu'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n ymwneud â rheoleiddio, digartrefedd a thenantiaethau tai cymdeithasol.”<sup>110</sup>

157. Ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog ar y pwyntiau a oedd wedi'u gwneud yn y Memorandwm Esboniadol yn ei thystiolaeth lafar, gan ddweud:

“This [Matter] is about support to help people to stay independent, and (...) most of us would identify that with Supporting People, although it does go somewhat wider than that. Members will know that significant resources are given to Supporting People every year. Currently, it is £140 million. It is a large sum, and when a Government gives money out in grant, you can put conditions on it, but it is far better and more transparent if we consider that there could be legislation in this area.”<sup>111</sup>

158. Yn ngoleuni pryderon a godwyd gan y Pwyllgor hwn a phwyllgorau deddfwriaeth eraill ynghylch drafftio Gorchmynion blaenorol, fe ofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog egluro ystyr y geiriau 'yn cynnwys, yn arbennig', sy'n cael eu defnyddio yn y Mater. Dywedodd ei swyddog wrthon ni:

“There is a legal maxim (...) that states that where you express one thing, it excludes another. The concern has been raised in relation to the drafting of previous LCOs that if you say 'includes', the list could exclude other items, even though you

---

<sup>109</sup> Memorandwm Esboniadol, para 31

<sup>110</sup> Memorandwm Esboniadol, para 32

<sup>111</sup> Cofnod y Trafodion, para 83, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

have said ‘includes’. In effect, it is a drafting device that the Office of the Welsh Legislative Counsel uses to overcome that. Therefore, although it [the Matter] refers to advice and non-financial assistance, it does not just refer to that; it can include other matters.”<sup>112</sup>

159. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud:

“I think that it is to have legal certainty that this list is not exhaustive. In ordinary, everyday language, if I said ‘includes’ to you, you would know that it means other things, but lawyers prefer to say ‘in particular’ to make something absolutely legally certain that other things are also included.”<sup>113</sup>

*Ein barn ni*

160. Rydyn ni’n nodi bod yna gefnogaeth eang ymhlith yr ymgynghoreion, er gwaethaf rhai amheuon a fynegwyd gan leiafrif, i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Mater 11.6.

161. Rydyn ni’n cydnabod bod Mater 11.6 yn cydategu Materion eraill sydd wedi’u cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig hwn a’i fod yn rhan o gyfres o bwerau deddfu sy’n gysylltiedig â thai y mae’r Cynulliad yn gofyn amdany’n nhw.

162. Rydyn ni’n croesawu’r Mater hwn fel modd i ganiatáu i gymorth gwerthfawr mewn cysylltiad â thai gael ei ddarparu ar gyfer personau i’w galluogi i fyw’n annibynnol neu’n fwy annibynnol nag y gallen nhw fel arall.

163. **Rydyn ni’n fodlon ar Fater 11.6 fel y mae wedi’i ddrafftio.**

## **Mater 11.7**

*Y cefndir*

164. Byddai Mater 11.7 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i’r Cynulliad dros ddarparu safleoedd carafanau, gan yr awdurdodau lleol, i Sipsiwn a Theithwyr.<sup>114</sup>

---

<sup>112</sup> Cofnod y Trafodion, para 72, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>113</sup> Cofnod y Trafodion, para 73, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>114</sup> Memorandwm Esboniadol para 55

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

165. Roedd yna gefnogaeth eang ymhlith yr ymgynghoreion i gynnwys y Mater hwn yn y Gorchymyn arfaethedig.

166. Nododd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, wrth gefnogi'r ymagwedd a oedd yn cael ei harddel at ddeddfu yn y maes hwn, nad oes gan ryw ddeg y cant o'r Sipsiwn a'r Teithwyr yng Nghymru safleoedd i letya arnyn nhw.<sup>115</sup>

167. Mynegodd CIH Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru<sup>116</sup> eu cefnogaeth i gynnwys y ddarpariaeth hon yn y Gorchymyn arfaethedig, a dywedodd CIH Cymru:

“We were pleased to see the Gypsy and Traveller Strategy (currently out for consultation) set out a proposed policy framework and incentives to aid local authorities to deliver appropriate sites, however we also feel it is important that the Assembly has the power to legislate in this area should this be required in the future.”<sup>117</sup>

168. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, nododd CIH Cymru fod yr awdurdodau lleol yn aml yn wynebu anawsterau wrth asesu'r anghenion am lety yng nghymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr gan fod dod o hyd i safleoedd addas yn bwnc llosg.<sup>118</sup>

169. Aethon nhw ymlaen i ddweud:

“As it is a contentious issue, it often depends on the softer brokering, but we believe that there sometimes needs to be a stick involved in this process (...).”<sup>119</sup>

170. Cafodd y farn hon ei hadleisio gan Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, a nododd fod yna farn bod rhai o'r awdurdodau lleol yn llusgo'u traed “in terms of the provision of sites.”<sup>120</sup> Dywedodd y Ffederasiwn:

---

<sup>115</sup> HLG7

<sup>116</sup> HLG5 & HLG8

<sup>117</sup> HLG8

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, para 76, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>119</sup> *Ibid.*

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, para 168, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

“It is important for the National Assembly for Wales to have a stick to wave to concentrate minds to provide those facilities (...).”<sup>121</sup>

171. Roedd Shelter Cymru hefyd yn cytuno bod y cymhwysedd a oedd yn cael ei geisio mewn perthynas â'r Mater hwn yn briodol.

172. Er eu bod yn credu mai partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol oedd y ffordd orau i roi cymorth ac i ddarparu safleoedd addas i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, fe ddywedon nhw hyn:

“(...) it seems appropriate that we should also have in Wales the powers to enforce that if necessary.”<sup>122</sup>

173. Er hynny, wrth fynegi eu cefnogaeth i'r Mater hwn, tanlinellodd nifer o'r ymgynghoreion anawsterau presennol a allai gael dylanwad ar effeithiolrwydd y Mater.

174. Er eu bod yn gyffredinol o blaid cyflwyno cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn, dywedodd CLILC yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod gwaith yn y maes hwn “continues to present local government with a real community leadership challenge.”<sup>123</sup>

175. Ymhelaethwyd ar hyn yn eu tystiolaeth lafar, gan ddweud:

“There are examples of local authorities trying to develop new sites, and it is the feedback and concerns raised by the local community that have prevented some of them from being developed.”<sup>124</sup>

176. Er eu bod yn ategu'r pwyntiau a wnaed gan Shelter Cymru ynghylch pwysigrwydd mynd ati mewn partneriaeth i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, eto i gyd nododd CLILC:

“(...) we appreciate that local authorities are making progress on this issue but it is slow, and further progress needs to be made.”

177. Eto wrth gyflwyno sylwadau ar yr anawsterau sydd wedi codi wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn, ac er eu bod o blaid egwyddor ymgysylltu â'r gymuned mewn penderfyniadau cynllunio, dywedodd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru:

---

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, para 168, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>122</sup> Cofnod y Trafodion, para 172-173, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>123</sup> HLG6

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, para 54, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

“(…) NIMBYism [Not In My Back Yard] should not override the National Assembly for Wales’ duty in respect of equality, fairness and social justice and its role to ensure provisions are made under the [Local Development Plans].”<sup>125</sup>

### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

178. Yn ei thystiolaeth hi, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“The Gypsy and Traveller strategy has been developed, and financial incentives are in place for local authorities. This is a provision that I hope the National Assembly will never need to legislate under, but the very fact that there are powers that could relate to local authorities’ provision of sites means that those sites, where there is an identified need, will exist without the need to resort to legislation.”<sup>126</sup>

179. Aeth ymlaen i ddweud:

“(…) this really is a clear signal that these powers... could be used by a future Assembly or Government if the strategy and the incentives that are in place do not produce the sites that have been assessed to be needed.”<sup>127</sup>

180. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd y byddai’r awdurdodau lleol yn croesawu’r gofyniad newydd hwn fod rhaid darparu safleoedd, gan awgrymu:

“(…) the fact that we will be able to legislate might crystallise local authorities’ minds in identifying suitable sites.”<sup>128</sup>

### *Ein barn ni*

181. Rydyn ni’n nodi bod yna gefnogaeth eang ymhlith yr ymgynghoreion i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i’r Cynulliad.

182. Rydyn ni’n cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law oddi wrth yr ymgynghoreion o blaid mynd ati mewn partneriaeth rhwng grwpiau cymunedol, sefydliadau perthnasol ac awdurdodau lleol fel y ffordd orau i sicrhau safleoedd priodol i Sipsiwn a Theithwyr.

---

<sup>125</sup> HLG7

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, para 78, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>127</sup> *Ibid.*

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, para 81, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

183. Er hynny rydyn ni'n nodi hefyd y gefnogaeth eang i sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad o dan y Mater hwn fel ffordd i roi diogelwch cyfreithiol, rhag ofn na fyddai dull anstatudol yn cyrraedd y nod o sicrhau safleoedd priodol i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

184. **Rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.7 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

## **Mater 11.8**

### *Y cefndir*

185. Byddai Mater 11.8 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â digartrefedd.<sup>129</sup>

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

186. Mynegodd Cartrefi Cymunedol Cymru a CIH Cymru gefnogaeth i gynnwys y Mater hwn yn y Gorchymyn arfaethedig ac i'r egwyddor o ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol ynglŷn â digartrefedd i'r Cynulliad Cenedlaethol.<sup>130</sup>

187. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

“CHC supports the broad definition of homelessness which would allow complete reform of the regulatory framework for homelessness - functions currently held are not necessarily cohesive to develop the relevant policy.”<sup>131</sup>

188. Ailadroddwyd y pwyntiau hyn yn eu tystiolaeth lafar, gan ddweud:

“(...) the [homelessness] prevention agenda would be greatly bolstered by the Assembly gaining legislative competence through this broadly scoped proposed legislative competence Order.”<sup>132</sup>

---

<sup>129</sup> Memorandwm Esboniadol para 56

<sup>130</sup> HLG5 ac HLG8

<sup>131</sup> HLG5

<sup>132</sup> Cofnod y Trafodion, para 91, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

189. Teimlad CIH Cymru oedd bod yna, yng Nghymru “(...) positive precedent in developing a homelessness policy that is specific to Wales.”<sup>133</sup>

190. Er eu bod yn nodi arwyddocâd cynllun digartrefedd deng-mlynedd Llywodraeth Cymru, dadleuai CIH Cymru ei bod yn bwysig i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn er mwyn dilyn y cynllun drwodd.<sup>134</sup>

191. Aethon nhw ymlaen i ddweud:

“Prevention is a significant part of that area: we would support [Community Housing Cymru’s] view that prevention is better than cure.”<sup>135</sup>

192. Yn eu tystiolaeth nhw, nododd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru hefyd mor bwysig yw cynllun digartrefedd deng-mlynedd Llywodraeth Cymru, gan ddadlau ei bod yn bwysig deddfu yn y maes hwn er mwyn rhoi sylw penodol i faterion atal ac ymyrryd.<sup>136</sup>

193. Rhoddodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru hithau groeso i fwriad y Gorchymyn arfaethedig i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud mwy i atal digartrefedd gan ddweud:

“Heb os mae angen gwell diffiniad o ddi-gartrefedd ac rydym o blaid y diffiniad mwy eang a argymhellir.”<sup>137</sup>

194. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, cynigiodd Shelter Cymru eu cefnogaeth lawn i'r Mater hwn gan nodi nad oedden nhw'n fodlon ar y ddeddfwriaeth gyfredol, drwy ddweud:

“The powers in the [proposed] Order will enable the Assembly to take a coherent and comprehensive approach required to questions of supply, advice and support, and homelessness prevention and lead on a new approach to homelessness in Wales focusing on helping more people avoid homelessness and when homelessness occurs reduce repeat/generational homelessness.”<sup>138</sup>

---

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, para 86, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>134</sup> *Ibid.*

<sup>135</sup> *Ibid.*

<sup>136</sup> Cofnod y Trafodion, para 170, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>137</sup> HLG12

<sup>138</sup> HLG1

195. Ymhelaethodd Shelter Cymru ar hyn yn eu tystiolaeth lafar, gan ddadlau nad oedd y ddeddfwriaeth (a oedd wedi'i datblygu yn y 1970au) yn briodol mwyach ac awgrymu bod y 'rhwystrau cynhenid', sef y materion ynglŷn â blaenoriaeth a bwriadedd, yn golygu nad oedd y ddeddfwriaeth gyfredol yn helpu pobl ddigartref.<sup>139</sup> Roedd Cymorth Cymru yn cytuno â'r safbwynt hwn.<sup>140</sup>

196. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig nhw, dywedodd Stonewall Cymru:

“Many lesbian, gay and bisexual people have been told by housing providers that they have made themselves intentionally homeless, if they are unwilling to explain the reasons behind their housing need, as they are often afraid of further discrimination (...).”<sup>141</sup>

197. Dywedon nhw eu bod o blaid y cynnig i roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn a'u bod wedi'u calonogi gan y Mater hwn, a fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad ddatblygu deddfwriaeth mewn perthynas ag atal digartrefedd ac mewn perthynas â materion bwriadedd.<sup>142</sup>

198. Rhoddodd y Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol groeso hefyd i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch digartrefedd, gan godi ambell bryder. Dywedodd y Rhwydwaith fod yr awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithio'n llwyddiannus yn y blynyddoedd diweddar i leihau ffigurau digartrefedd ac y dylai unrhyw bwerau deddfu a geid gael eu defnyddio “(...) to continue this effective work.”<sup>143</sup>

199. Awgrymodd y Rhwydwaith y gallai pwerau deddfu newydd gael eu defnyddio i ganiatáu i gynghorau roi cartref i'r digartref mewn llety a fyddai'n cael ei ddarparu gan y sector preifat, a hefyd newid y polisiau dyrannu presennol er mwyn osgoi'r “perverse incentive” i bobl ddatgan eu bod yn ddigartref er mwyn cael blaenoriaeth o ran eu statws.<sup>144</sup>

---

<sup>139</sup> Cofnod y Trafodion, para 176-177, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>140</sup> Cofnod y Trafodion, para 184, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>141</sup> HLG4

<sup>142</sup> *Ibid*

<sup>143</sup> HLG10

<sup>144</sup> *Ibid*

200. Croesawodd CLILC y cymhwysedd deddfwriaethol o dan y Mater hwn gan obeithio y byddai'n cynnig cymaint â phosibl o hyblygrwydd wrth ddatblygu ymateb polisi effeithiol.<sup>145</sup>

201. Er hynny, fe gododd CLILC rai pryderon ynghylch y problemau a gafwyd yn yr Alban o ganlyniad i adolygu'r deddfwriaeth ar ddigartrefedd.<sup>146</sup> Nododd CLILC fod Llywodraeth yr Alban, yn yr Alban, wedi ceisio cynyddu hawliau pobl ddigartref, gan sicrhau bod pawb yr oedd angen tai arnyn nhw yn gallu cyrchu tai cymdeithasol. Dywedodd CLILC fod hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw am dai cymdeithasol gyda llawer o bobl yn eu gwneud eu hunain yn ddigartref er mwyn sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth i gael tai.<sup>147</sup>

202. Aethon nhw ymlaen:

“(...) we are concerned (...) that any proposals that are brought forward have a clear rationale behind them and require a full impact assessment to be carried out before changes are made so that we do not have the unintended consequences that we have seen in Scotland.”<sup>148</sup>

#### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

203. Yn ei thystiolaeth hi, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai Mater 11.8 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad i ddiwygio'r deddfwriaeth gyfredol ar ddigartrefedd yn llwyr. Dywedodd:

“This is one of those areas in which Welsh Ministers hold specific functions, and because they are specific, they might not necessarily join together in a coherent bundle, if you like, that would allow one to develop policy in a comprehensive way. It is therefore important that this is an area where we have that.”<sup>149</sup>

204. Ychwanegodd:

“Our focus is on prevention. The current legislation is about dealing with people once they become homeless. We are trying to have policies that talk about prevention, using powers that

---

<sup>145</sup> HLG6

<sup>146</sup> Cofnod y Trafodion, para 59, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>147</sup> Cofnod y Trafodion, para 28-29, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>148</sup> Cofnod y Trafodion, para 59, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>149</sup> Cofnod y Trafodion, para 85, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

are focused on what you do when someone becomes homeless.”<sup>150</sup>

205. Aeth yn ei blaen i ddweud:

“There are also currently no powers for the National Assembly in this respect, just with the Welsh Ministers. So, I feel that it is about time that we are able to propose legislation in this area that better matches what we are trying to do and which will be more democratic in as much as it will be open and transparent and that it will be legislation.”<sup>151</sup>

*Ein barn ni*

206. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth eang sy'n bodoli i drosglwyddo cymhwysedd, fel y darperir ar ei gyfer o dan Fater 11.8, ac rydyn ni'n credu bod y potensial ar gyfer mwy o hyblygrwydd wrth ddatblygu polisi effeithiol mewn perthynas â digartrefedd i'w groesawu a'i annog.

207. Rydyn ni'n nodi bod llawer o'r ymgynghoreion wedi'u calonogi gan y Mater hwn yn yr ystyr y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad ddatblygu deddfwriaeth mewn perthynas ag atal digartrefedd a materion bwriadedd.

208. Rydyn ni'n nodi tystiolaeth yr ymgynghoreion ynghylch diwygio'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd yn yr Alban a'r materion a gododd wedyn mewn perthynas â thai cymdeithasol, ac rydyn ni'n teimlo bod yna wersi i'w dysgu.

209. Rydyn ni'n cytuno â'r ymgynghoreion fod atal digartrefedd yn fwy llesol ac yn fwy arwyddocaol yn strategol na'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i helpu personau ar ôl iddyn nhw fynd yn ddigartref, ac felly rydyn ni'n croesawu bwriad y Gorchymyn arfaethedig i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud mwy i atal digartrefedd.

**210. Rydyn ni'n fodlon ar Fater 11.8 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

---

<sup>150</sup> Cofnod y Trafodion, para 85, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>151</sup> *Ibid.*

## Mater 12.18

### *Y cefndir*

211. Byddai Mater 12.18 yn galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth ynghylch taliadau'r Dreth Gyngor ar anheddau nad ydyn nhw'n brif breswylfa i unigolyn.<sup>152</sup>

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

212. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, nododd CIH Cymru:

“At least 26,000 homes in Wales have been empty for over 6 months (...). There is a need to ensure that owners are both encouraged, and where appropriate, required to unlock the potential of this wasted resource.”<sup>153</sup>

213. Dadleuai CIH Cymru y byddai gallu'r awdurdodau lleol i godi treth gyngor uwch ar eiddo gwag, a fyddai'n gael ei gynnig gan y ddarpariaeth hon yn y Gorchymyn arfaethedig, yn cynyddu:

“(...) the range of powers available to local authorities in bringing empty homes back in to occupation and would help them to make better use of the housing stock in their area.”<sup>154</sup>

214. Aethon nhw ymlaen i ddweud y dylai incwm ychwanegol yn sgil cynyddu taliadau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag neu ail gartrefi gael ei ddefnyddio i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.<sup>155</sup>

215. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, o ran ymdrin â materion cartrefi gwag, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn teimlo bod y Gorchymyn arfaethedig yn “(...) perfectly fit for purpose.”<sup>156</sup>

216. Roedd CLILC hefyd o blaid trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn gan awgrymu bod hyn yn ffordd dda i fynd i'r afael â materion ynglŷn ag ail gartrefi a chartrefi gwag.<sup>157</sup>

217. Dywedodd CLILC:

---

<sup>152</sup> Memorandwm Esboniadol para 57

<sup>153</sup> HLG8

<sup>154</sup> *Ibid.*

<sup>155</sup> *Ibid.*

<sup>156</sup> Cofnod y Trafodion, para 99, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>157</sup> Cofnod y Trafodion, para 62, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

“The latest figures show that there are somewhere in the region of 18,000 empty homes across Wales, and obviously, that is a huge potential resource.”<sup>158</sup>

218. Wrth sôn am y “double benefit” a allai gael ei wireddu drwy’r pŵer i’r awdurdodau lleol amrywio taliadau’r dreth gyngor, dywedodd CLILC:

“It would act as a positive incentive to encourage those who were perhaps inclined through inertia to leave a property empty to do something with it (...) [whilst also creating] a potential source of income to allow local authorities to better resource this area of activity (...).”<sup>159</sup>

219. Nododd Shelter Cymru hefyd ei bod yn bwysig bod y Cynulliad yn gallu rhoi pwerau i’r awdurdodau lleol a fyddai’n annog perchnogion i ddefnyddio cartrefi gwag yn well.<sup>160</sup>

220. Yn eu tystiolaeth lafar, fe ddywedon nhw:

“(...) if the Assembly were to acquire powers over empty homes, it could simplify [current powers] and make it easier and more accessible for local authorities to use.”<sup>161</sup>

221. Dadleuai Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd fod ar yr awdurdodau lleol angen pwerau mwy hyblyg i ddelio â materion ynglŷn â chartrefi gwag ac ail gartrefi, gan awgrymu y byddai hyn yn adlewyrchu eu swyddogaeth strategol ym maes tai.<sup>162</sup>

222. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, dywedodd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru:

“It is estimated that between 4,000 and 5,000 new social housing properties need to be developed per year (...). We feel that those needs could be met by having the power to legislate in the area of empty homes.”<sup>163</sup>

---

<sup>158</sup> Cofnod y Trafodion, para 66, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>159</sup> Cofnod y Trafodion, para 68, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>160</sup> HLG1

<sup>161</sup> Cofnod y Trafodion, para 188, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>162</sup> HLG5

<sup>163</sup> Cofnod y Trafodion, para 173, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

223. Roedd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru hefyd yn teimlo bod y pwerau arfaethedig a fyddai'n galluogi'r awdurdodau lleol i amrywio taliadau'r dreth gyngor i'w croesawu.<sup>164</sup>

224. Cyflwynodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru sylwadau tebyg gan ddweud eu bod o blaid y bwriad i roi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol mewn perthynas â strategaethau tai. Aethon nhw ymlaen i ddweud:

“Mae'n bwysig sicrhau bod yr hawliau arfaethedig yn galluogi cynghorau i fynd i'r afael â phroblemau fel problem tai haf/ail gartrefi yng Nghymru. Mae hyn yn broblem fawr yn yr ardaloedd gwledig.”<sup>165</sup>

#### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

225. Yn ei thystiolaeth hi, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Mater hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol wrth amrywio'r dreth gyngor ar annedd nad oedd yn brif annedd. Dywedodd:

“Even though there are considerable executive powers in relation to council tax, it cannot be varied above the statutory limit and they are just executive functions that rest with the Ministers. This [Matter] would allow us to make legislation in that area.”<sup>166</sup>

226. Ychwanegodd swyddog y Dirprwy Weinidog:

“The council tax dimension [of this Matter is] (...) an attempt at discretionary power for local authorities (...). It offers the potential to generate funds that could be invested in affordable housing to try to offset the effects of second homes in some parts of Wales.”<sup>167</sup>

227. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud:

“Members will probably remember the Joseph Rowntree Foundation report into housing in rural Wales, which suggested that the council tax system would be able to yield resources that the local authority would have at its disposal and use them

---

<sup>164</sup> Cofnod y Trafodion, para 175, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>165</sup> HLG12

<sup>166</sup> Cofnod y Trafodion, para 90-91, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>167</sup> Cofnod y Trafodion, para 93, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

for affordable housing, and that it might be a more practical way forward than using a system that could be unenforceable and from which we would get no benefit. That is the reason why we have gone for this.”<sup>168</sup>

### *Ein barn ni*

228. Rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth sy'n bodoli ymhlith yr ymgynghoreion i roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

229. Rydyn ni'n croesawu'r Mater hwn fel ffordd briodol i fynd i'r afael â materion ynglŷn ag ail gartrefi, gan nodi bod yr ymgynghoreion yn rhoi pwys mawr ar sicrhau y gall y Cynulliad roi pwerau i'r awdurdodau lleol i annog perchnogion i ddefnyddio cartrefi gwag yn well.

230. **Rydyn ni'n fodlon ar Fater 12.18 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

## **Eithriadau i gymhwysedd deddfwriaethol**

### *Y cefndir*

231. Dydy'r Gorchymyn arfaethedig ddim yn nodi unrhyw eithriadau i'r cymhwysedd y byddai'n ei roi.<sup>169</sup>

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

232. Chawson ni ddim tystiolaeth gan yr ymgynghoreion ynghylch cwestiwn eithriadau i gymhwysedd.

### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

233. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes eithriadau i'r cymhwysedd sydd i'w roi i'r Cynulliad gan y Gorchymyn arfaethedig. Er hynny, mae'n dweud hyn:

“(…) byddai angen i'r cymhwysedd hwnnw gael ei ystyried ochr yn ochr â'r eithriadau cyffredinol a geir ym mharagraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 (a fewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009). Mae hyn yn golygu bod nawdd cymdeithasol, gan gynnwys Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth

---

<sup>168</sup> Cofnod y Trafodion, para 94, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>169</sup> Memorandwm Esboniadol para 58

Gyngor, yn eithriad sy'n gymwys i bob mater, gan gynnwys y rhai yn y GCD arfaethedig hwn.”<sup>170</sup>

234. Ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog ar hyn yn ei thystiolaeth lafar, gan ddweud:

“When we were looking at the proposed Order as it was developing, we did not want to have exceptions if possible. There could have been an exception in terms of housing benefit, but I draw Members’ attention to matter 11.6, which refers to non-financial assistance. Therefore, there was no need to put in an exception about housing benefits. So, it is just worded in a way that does not require an exception.”

235. Aeth ei chynghorydd cyfreithiol ymlaen:

“The exceptions Order adds floating exceptions to fields 10 and 15 of Schedule 5. The ones that we thought would be of most relevance were the independent living funds and social security exceptions, but, as the Deputy Minister said, we feel that that is covered by the reference to non-financial assistance in matter 11.6.”

*Ein barn ni*

**236. Rydyn ni'n nodi tystiolaeth y Dirprwy Weinidog mewn perthynas ag eithriadau i gymhwysedd deddfwriaethol.**

---

<sup>170</sup> Memorandwm Esboniadol para 58

## 4. Darpariaethau dehongli yn y Gorchymyn arfaethedig

---

*Y cefndir*

237. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaethau dehongli a fydd yn gymwys i Faes 11 yn ei gynswth. Mae'r darpariaethau canlynol wedi'u cynnwys:

ystyr "safle carafán" yw—

- (a) tir y rhoddir carafán neu lety symudol arall (ac eithrio pabell) i sefyll arno er mwyn i bobl fyw ynnddi neu ynndo, a
- (b) tir a ddefnyddir ar y cyd â thir sy'n dod o fewn paragraff (a) o'r diffiniad hwn;

ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "corff tai cymdeithasol perthnasol" yw person (os nad yw, neu i'r graddau nad yw, yn ddarparydd tai cymdeithasol) a chanddo swyddogaethau o ran—

- (a) darparwyr tai cymdeithasol, neu
- (b) tai cymdeithasol;

ond os oes gan y person rai swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol neu â thai cymdeithasol, mae person yn gorff tai cymdeithasol perthnasol dim ond i'r graddau y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol neu â thai cymdeithasol;

ystyr "tai cymdeithasol" yw unrhyw dai sy'n cael eu darparu gan ddarparydd tai cymdeithasol;

ystyr "darparydd tai cymdeithasol" yw—

- (a) awdurdod lleol, a
- (b) person (ac eithrio awdurdod lleol) sy'n darparu tai i bobl nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu'n ddigon da gan y farchnad dai fasnachol (p'un a yw hefyd yn darparu tai i bobl eraill ai peidio a ph'un a oes ganddo hefyd swyddogaethau sy'n ychwanegol at ddarparu tai);

ond, os oes gan awdurdod lleol neu berson arall rai swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â darparu neu ddyrannu tai, mae'r awdurdod neu berson arall yn ddarparydd tai cymdeithasol dim ond i'r graddau y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â darparu ac â dyrannu tai.

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

238. Chawson ni ddim tystiolaeth i awgrymu nad oedd croeso i gynnwys y darpariaethau dehongli yn y Gorchymyn arfaethedig, neu fod y diffiniadau a gynhwyswyd yn amhriodol.

239. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, dywedodd Cymorth Cymru nad oedden nhw'n credu bod y darpariaethau dehongli'n peri problem a'i bod yn ymddangos bod y darpariaethau'n glir.<sup>171</sup> Roedd Shelter Cymru yn cytuno â'r farn honno.<sup>172</sup>

240. Dywedodd CIH Cymru a TPAS Cymru<sup>173</sup> fod y diffiniadau yn y paragraff 'Dehongli'r maes hwn' yn glir, ac awgrym Cartrefi Cymunedol Cymru oedd "definition by function makes it clearer than the approach that was adopted previously [yn y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy yn 2008<sup>174</sup>]."<sup>175</sup>

241. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

"The definition of 'social housing provider' is sufficiently flexible to allow for new bodies to be brought in the future."<sup>176</sup>

242. Gwnaeth Ffederasiwn Tenantiaid Cymru bwynt tebyg, gan ddweud bod y diffiniad arfaethedig o dai cymdeithasol yn cydweddu â natur eang gyfredol tai cymdeithasol.<sup>177</sup>

243. Nododd CLILC eu bod yn fodlon ar y diffiniadau yn y Gorchymyn arfaethedig, gan ychwanegu eu bod yn arbennig o falch:

"(...) that the approach being taken is to have a flexible approach to the term 'social landlord', because we very much

---

<sup>171</sup> Cofnod y Trafodion, para 198, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>172</sup> Cofnod y Trafodion, para 199, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>173</sup> HLG8 ac HLG9

<sup>174</sup> Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008

<sup>175</sup> HLG5

<sup>176</sup> *Ibid.*

<sup>177</sup> Cofnod y Trafodion, para 181, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

support the direction of travel of the national housing strategy.”<sup>178</sup>

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

244. Pan ofynnwyd iddi esbonio’r darpariaethau dehongli a oedd wedi’u cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“This is the broadest and simplest that we can get it, using the natural interpretation of those words. Some of (...) [the terms are] legalistic because of the requirement of being certain.”<sup>179</sup>

245. Ychwanegodd ei swyddog mai’r termau sydd wedi’u diffinio yw “(...) the ones that we considered would not be sufficiently clear from the context in the proposed LCO.”<sup>180</sup>

246. O ran y termau ‘darparwyr tai cymdeithasol’ a ‘corff tai cymdeithasol perthnasol’, dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog:

“(...) the intention was to move away from the construction that was adopted in the affordable housing LCO, which made a specific reference to bodies by way of legislation. The problem with that was that if the enactment cited changed, you would need to look at changing the wording in the LCO. So, giving it a definition by virtue of describing the functions made it clearer than the approach that was adopted previously.”<sup>181</sup>

247. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“Another point that is worth making is that the definition of ‘social housing provider’ is sufficiently flexible to allow for new bodies to be brought in future. We also wanted to ensure that it was future-proofed.”<sup>182</sup>

248. O ran dehongli ‘safle carafán’ a’r ffaith bod pebyll wedi’u hepgor, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod y Mater yn cyfeirio at ddarparu safleoedd ac nid rheoli safleoedd a’u bod wedi ceisio cadw’r

---

<sup>178</sup> Cofnod y Trafodion, para 74, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>179</sup> Cofnod y Trafodion, para 101, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>180</sup> Cofnod y Trafodion, para 100, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>181</sup> Cofnod y Trafodion, para 101, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>182</sup> Cofnod y Trafodion, para 102, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

diffiniad statudol parhaus sydd i'w gael yn Neddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.<sup>183</sup>

249. Cadarnhaodd swyddog y Dirprwy Weinidog nad oedd darpariaethau dehongli wedi'u cynnwys mewn Gorchmynion arfaethedig eraill nac ym Mesurau'r Deyrnas Unedig a oedd ar y gweill ac a oedd yn gymwys i'r Gorchymyn arfaethedig.<sup>184</sup>

*Ein barn ni*

250. Rydyn ni'n nodi bod yna gefnogaeth eang i gynnwys y darpariaethau dehongli ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig.

251. Rydyn ni hefyd yn nodi sylwadau gan yr ymgynghoreion bod y diffiniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig yn glir ac yn briodol.

252. Rydyn ni'n cydnabod bod pryderon ynghylch y diffiniad o ddarparparydd tai cymdeithasol wedi'u codi gan ymgynghoreion yn ystod y gwaith craffu ar y Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol ynglŷn â thai,<sup>185</sup> ac yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi rhoi sylw i'r rhain yn y Gorchymyn arfaethedig hwn.

**253. Rydyn ni'n fodlon ar y darpariaethau dehongli fel y maen nhw wedi'u ddrafftio.**

---

<sup>183</sup> Cofnod y Trafodion, para 106-107, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>184</sup> Cofnod y Trafodion, para 109, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>185</sup> Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008

## 5. Materion eraill

---

### Adnoddau

#### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

254. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, tynnodd CLILC ein sylw at gwestiwn adnoddau, gan ddweud hyn:

“It is essential that any proposal to introduce new housing legislation or measures under a new competence order is founded on a well developed rationale, a detailed impact assessment and assurances that resources will be made available to address any additional burdens that are created.”

255. Ymhelaethwyd ar hyn yn eu tystiolaeth lafar, gan ddadlau bod angen trafodaeth ynghylch goblygiadau ariannol posibl i gyd-fynd ag unrhyw gynigion newydd, er eu bod yn cydnabod y byddai unrhyw newid yn yr arferion presennol yn gyfle i edrych ar ddiffygion.<sup>186</sup>

256. Gwnaeth CIH Cymru bwynt tebyg perthynas â Mater 11.8 (digartrefedd), gan ddweud:

“Any legislative changes in this area should not be introduced without a proper impact assessment that is properly thought through.”<sup>187</sup>

#### *Ein barn ni*

257. Rydyn ni'n nodi tystiolaeth rhai o'r ymgynghoreion ynghylch y goblygiadau ar gyfer adnoddau yn y dyfodol o ganlyniad i'r Gorchymyn arfaethedig.

**258. Rydyn ni'n credu y byddai'n fwy priodol i gwestiwn adnoddau gael ei ystyried fel rhan o Fesurau yn y maes hwn yn y dyfodol, ac yn hyderu y bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i hyn gan y Dirprwy Weinidog ar yr adeg briodol.**

---

<sup>186</sup> Cofnod y Trafodion, para 82, 13 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>187</sup> Cofnod y Trafodion, para 86, 20 Ionawr 2010, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

## Materion traws-ffiniol

### *Y cefndir*

259. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

“Byddai'r GCD arfaethedig yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu drwy Fesur Cynulliad o ran Cymru yn unig. Yn ymarferol, byddai hyn yn debygol o olygu y gallai Mesur wneud darpariaeth mewn perthynas ag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol eraill wedi eu lleoli yng Nghymru, tai wedi eu lleoli yng Nghymru, ac anghenion pobl yng Nghymru am dai.”<sup>188</sup>

### *Tystiolaeth yr ymgynghoreion*

260. Chawson ni ddim tystiolaeth i awgrymu bod yr ymgynghoreion yn gofidio ynghylch materion traws-ffiniol o ganlyniad i'r Gorchymyn arfaethedig hwn.

### *Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

261. Yn ei thystiolaeth hi, rhoddodd y Dirprwy Weinidog sylw i gwestiwn materion traws-ffiniol a allai godi o'r Gorchymyn arfaethedig:

“(…) we are aware that there are English housing associations that have tenants in Wales, and that there are Welsh housing associations that have tenants in England. It does not affect many people, but it does affect some.”<sup>189</sup>

262. Aeth swyddog y Dirprwy Weinidog ymlaen:

“There are a few issues on different performance standards in England and self-assessment arrangements for registered social landlords. We are in very close contact with the Department of Communities and Local Government and the Tenant Services Authority in England. There is discussion on clarity in these issues. Both are going in the same direction, but, as the Deputy Minister says, there are a small number of tenants either side of the border that it affects.”<sup>190</sup>

---

<sup>188</sup> Memorandwm Esboniadol para 59

<sup>189</sup> Cofnod y Trafodion, para 31, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

<sup>190</sup> Cofnod y Trafodion, para 32, 10 Rhagfyr 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

*Ein barn ni*

**263. Rydyn ni'n nodi tystiolaeth y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â materion traws-ffiniol sy'n codi o'r Gorchymyn arfaethedig.**

## Tystion

---

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-hlg-2.htm>

### *10 Rhagfyr 09*

Jocelyn Davies AC                      Y Dirprwy Weinidog dros Dai,  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

### *13 Ionawr 10*

Naomi Alleyne                              Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Sue Finch                                      Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

John Puzey                                    Shelter Cymru

Joy Kent                                        Cymorth Cymru

### *20 Ionawr 10*

Steve Clarke                                 Ffederasiwn Tenantiaid Cymru

Gail McFee                                    Ffederasiwn Tenantiaid Cymru

Vikki Hiscocks                               Sefydliad Tai Siartredig Cymru

Keith Edwards                               Sefydliad Tai Siartredig Cymru

Nick Bennet                                  Cartrefi Cymunedol Cymru

Peter Cahill                                  Cartrefi Cymunedol Cymru

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

---

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gall y dystiolaeth ysgrifenedig gael ei gweld yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-hlg-2.htm>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Shelter Cymru	HLG1
Cymorth Cymru	HLG2
Darran Daye, Rheolwr Cefnogi Pobl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	HLG3
Stonewall Cymru	HLG4
Cartrefi Cymunedol Cymru	HLG5
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	HLG6
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru	HLG7
Sefydliad Tai Siartredig (CIH) Cymru	HLG8
TPAS Cymru	HLG9
Y Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol	HLG10
Rhwydwaith Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPIN)	HLG11
Eglwys Bresbyteraidd Cymru	HLG12